General Pharmaceutical Council

# Adroddiad blynyddol

Adroddiad addasrwydd
i ymarfer blynyddol
Cyfrifon blynyddol
2020/21

General
Pharmaceutical
Council

# Adroddiad blynyddol

## Adroddiad addasrwydd
## i ymarfer blynyddol
## Cyfrifon blynyddol
## 2020/21

**Adroddiad blynyddol ac adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd a Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010**

**Cyfrifon blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd a Senedd yr Alban yn unol â pharagraff 8 Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010**

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon, e-bostiwch **communications@pharmacyregulation.org** neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**.

Gallwch hefyd ddarllen y ddogfen hon ar ein gwefan yn **www.pharmacyregulation.org/annualreport** a'i lawrlwytho o **www.gov.uk/official-documents**

# Cynnwys


Cip yn ôl dros ein blwyddyn ........ 6

Rhagair ........ 7

Amdanom ni ........ 9

Y gofrestr ........ 10

Datblygiadau allweddol yn 2020/21 ........ 12

Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol ........ 30

Y gofynion adrodd sydd arnom ........ 36

Ein dull llywodraethu ........ 37

Datganiad llywodraethu 2020/21 ........ 47

Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ........ 51

- Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor dros baratoi datganiadau ariannol ........ 55
- Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol ........ 56
- Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ........ 60
- Datganiad ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021 ........ 61
- Datganiad llifoedd arian am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ........ 62
- Datganiad newidiadau i gronfeydd am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ........ 63
- Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 ........ 64

Atodiad 1: Penderfyniad Ar Gyfrifon y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 ........ 80

# Cip yn ôl dros ein blwyddyn

Y gofrestr ar 31 Mawrth 2021

**56,851** o fferyllwyr

**24,439** o fferyllwyr technegol

**13,977** o fferyllfeydd cofrestredig

**3,459** o fferyllwyr a **2,984** o dechnegwyr fferyllol wedi eu cofrestru dros dro yn ystod argyfwng COVID-19

**2,606** o fferyllwyr wedi eu darpar gofrestru yn ystod argyfwng COVID-19

**276** o arolygiadau fferyllol arferol a dros **4,140** o alwadau ac ymweliadau cymorth COVID-19

**53** o gynlluniau gweithredu wedi eu cytuno gyda fferyllfeydd

**46** o hysbysiadau gorfodi wedi eu cyflwyno yn erbyn fferyllfeydd*

*41 hysbysiad gwella, 5 gosod amodau

Dros **7.5 million** o ymweliadau â'n gwefan gan gynnwys **34,472** o ymweliadau â'n hyb gwybodaeth

**2,998** o bryderon ynghylch gweithwyr fferyllol proffesiynol

Cymryd rhan mewn **41** o ddigwyddiadau ymgysylltu rhithwir

Ymateb i dros **54,200** o alwadau ac e-byst gan aelodau cofrestredig a'r cyhoedd

**4** ymgynghoriad cyhoeddus gyda dros **1,160** o ymatebion wedi eu derbyn

**190** o staff swyddfa CFfC yn gweithio o bell

# Rhagair

## gan ein cadeirydd, Nigel Clarke, a'n prif weithredwr, Duncan Rudkin

Eleni, mae ein ffocws wedi bod ar ymateb yn effeithiol i heriau a phwysau pandemig COVID-19.

Mae fferylliaeth wedi bod ar flaen y gad yn yr ymateb i'r pandemig, gan barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i bobl mewn amgylchiadau eithriadol o anodd.

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad sylweddol mae fferylliaeth wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, at ymateb Prydain Fawr i COVID-19. Rydym am ddiolch i'r fferyllwyr, technegwyr fferyllol, fferyllwyr cofrestredig dros dro, hyfforddeion a myfyrwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd a holl aelodau'r tîm fferylliaeth sydd wedi dangos ymrwymiad anhygoel i gleifion a'r cyhoedd.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar weithwyr fferyllol proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd o gefndiroedd Du, Asiaidd neu gefndiroedd lleiafrifol ethnig eraill. Rydym yn cefnogi rhaglen ymchwil fawr i ddeall a ydy ethnigrwydd yn effeithio ar ganlyniadau clinigol COVID-19 mewn gweithwyr gofal iechyd, a sut a pham. Bydd yr ymchwil hefyd yn ystyried effaith COVID-19 ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, gan gynnwys effaith 'COVID hir'.

Ac rydym yn cofio am aelodau'r gymuned fferylliaeth y mae COVID-19 wedi effeithio'n bersonol arnyn nhw. Rydym yn talu teyrnged i'r rhai sydd wedi marw yn ystod y pandemig, yn diolch iddynt am eu gwasanaeth ac yn cydymdeimlo'n fawr â'u ffrindiau, eu teuluoedd a'u cydweithwyr.

### Ymateb i'r pandemig

Ar adeg mor anodd, yr hyn sydd wedi bod yn drawiadol iawn yw'r hyblygrwydd a'r arloesedd a ddangoswyd gan weithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd mewn ymateb i'r heriau y maent wedi'u hwynebu. Rydym wedi gweld a rhannu llawer o enghreifftiau o arfer da a rhagorol yn ystod y pandemig.

Fel sefydliad, rydym hefyd wedi gorfod ymateb yn gyflym i ddatblygiadau, a gweithio'n wahanol iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n rhyfeddol meddwl bod bron pob un ohonom wedi gweithio o bell drwy gydol 2020/21 – rhywbeth a fyddai wedi teimlo'n amhosibl gynt.

Newidiwyd ein dull arolygu fferyllfeydd. Symudom ein hadnoddau o arolygiadau arferol i ganolbwyntio ar gefnogi fferyllfeydd cofrestredig gyda'u trefniadau a'u cynlluniau i helpu i reoli pwysau a heriau yn ystod y pandemig. Helpodd y dull hwn ni i adnabod a lleihau risgiau a materion COVID yn gynnar ac i weithio gydag eraill i ymateb i unrhyw faterion oedd yn dod i'r amlwg. Drwy gydol y pandemig, rhoddodd ein Hyb Gwybodaeth enghreifftiau o arfer da i gefnogi'r proffesiwn. Rydym hefyd wedi parhau i weithredu'n gyflym ar unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd gennym yn awgrymu risg i ddiogelwch cleifion, drwy gynnal arolygiadau 'wedi'u harwain gan wybodaeth'.

Bu'n rhaid i ni hefyd gyflwyno ffyrdd newydd o weithio mewn rhannau eraill o'n gwaith. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal gwrandawiadau'r

Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer o bell ac aildrefnu ein hasesiadau cofrestru ar-lein. Cyflwynom hefyd gofrestriad dros dro ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a oedd wedi gadael ein cofrestrau’n ddiweddar, a darpar gofrestriad ar gyfer hyfforddeion fferyllol cyn-gofrestru oedd yn disgwyl eu hasesiadau cofrestru. Roedd hyn yn golygu ein bod yn gallu helpu i gefnogi'r gweithlu fferylliaeth yn ystod cyfnod hynod heriol.

## Gwella'r ffordd rydym yn gweithio

Ein ffocws eleni fu ymateb i heriau'r pandemig. Mae'n anochel bod rhai o'n cynlluniau a'n hamserlenni blaenorol wedi gorfod newid, ond rydym hefyd wedi parhau i symud yn ein blaen i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol.

Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2020-25 yn nodi dechrau ein taith tuag at gyflawni ein Gweledigaeth 2030 uchelgeisiol, ar gyfer 'gofal fferyllol diogel ac effeithiol sydd wrth wraidd cymunedau iachach '. Bu'n rhaid cyflwyno ein dull strategol newydd yn gyflym. Roedd hyn er mwyn ein cynorthwyo i ymateb i'r heriau roeddem i gyd yn eu hwynebu ac i'n helpu i wneud yr hyn a allem i helpu fferylliaeth i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd. Mae ein gweledigaeth a'n cynllun strategol wedi helpu i lywio ein hymateb i COVID-19 a byddant yn parhau i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

Un o'n llwyddiannau mwyaf eleni fu cwblhau a chyflwyno safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Bydd gweithredu'r safonau hyn yn trawsnewid addysg a hyfforddiant fferyllwyr am genhedlaeth, er mwyn iddyn nhw allu chwarae rhan fwy o lawer wrth ddarparu gofal clinigol i gleifion a'r cyhoedd o'u diwrnod cyntaf un ar y gofrestr, gan gynnwys drwy bresgripsiynu meddyginiaethau.

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymwneud â datblygu'r safonau ac a fydd yn chwarae rhan yn y gwaith o'u gweithredu. Mae eu cefnogaeth a'u cydweithrediad wedi bod yn hanfodol wrth greu’r safonau terfynol a byddant yn hanfodol i’w gweithredu'n llwyddiannus.

Datblygiad allweddol arall eleni fu ein hymgynghoriad ar newid y ffordd rydym yn rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i sicrhau gwelliannau pellach i’r ffordd rydym yn rheoli pryderon – gan roi gwell amddiffyniad i gleifion a'r cyhoedd a bod yn deg â gweithwyr fferyllol proffesiynol ar yr un pryd. Un o flaenoriaethau allweddol y flwyddyn

nesaf fydd dechrau gweithio i gyflawni'r strategaeth derfynol.

## Paratoi at y dyfodol

Wrth i ni ysgrifennu’r rhagair hwn, mae llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r hyn sydd o'n blaenau, ac am y ffordd allan o'r pandemig. Ond mae un peth yn sicr: all pethau ddim dychwelyd yn llwyr i'r ffordd yr oeddent o'n blaen, a ddylen nhw ddim chwaith. Rydym yn benderfynol o ddysgu gwersi o'r pandemig a pharhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio, fel y gallwn gefnogi gofal fferyllol diogel ac effeithiol i gleifion a'r cyhoedd yn y ffordd orau bosibl.

**Duncan Rudkin**
Prif Weithredwr

**Nigel Clarke**
Cadeirydd

# Amdanom ni

## Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

## Yr hyn rydym yn ei wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddynt gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydym yn gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydym yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydym yn helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

## Newidiadau i...

### Ein Cyngor

Dechreuodd Rose Marie Parr, Selina Ullah a Yousaf Ahmad, eu tymor fel aelodau Cyngor ar 1 Ebrill 2020.

### Ein staff

Gadawodd Francesca Okosi, Cyfarwyddwr Pobl, y sefydliad ym mis Hydref 2020.

Ymunodd Gary Sharp fel Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol ym mis Hydref 2020.

# Y gofrestr

## Y gofrestr ar 31 Mawrth 2021

**56,851** pharmacists

**24,439** pharmacy technicians

**13,977** registered pharmacies

Gall pob aelod o'r cyhoedd wirio a yw fferyllwyr, technegwyr fferyllol neu fferyllfeydd wedi'u cofrestru ym Mhrydain, drwy edrych ar y gofrestr ar ein gwefan. Gallwch hefyd weld unrhyw benderfyniadau rydym wedi'u gwneud ynghylch a yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ddiogel i ymarfer fferylliaeth, a pha fferyllwyr sydd hefyd yn 'bresgripsiynwyr atodol' neu'n 'bresgripisynwyr annibynnol'.

Er mwyn gallu ymarfer ym Mhrydain, mae'n rhaid i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol ein bodloni eu bod yn cyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Dim ond wedyn y gallant ymuno â'r gofrestr. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw un sydd eisiau cofrestru fferyllfa neu adnewyddu'r cofrestriad hwnnw hefyd gyrraedd ein safonau hefyd.

Pan fydd fferyllydd neu dechnegydd fferyllol yn adnewyddu eu cofrestriad gyda ni bob blwyddyn, mae'n rhaid iddyn nhw wneud datganiad yn cadarnhau eu bod yn cyrraedd pob un o'n safonau.

Mae unrhyw un nad yw wedi cofrestru gyda ni, ond sy'n ymarfer fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol, yn torri'r gyfraith a gellir ei erlyn. Gallwch chwilio'r gofrestr ar-lein am fanylion ynghylch fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd.

## Cofrestru dros dro

Ym mis Mawrth 2020, defnyddiom ein pwerau brys i roi cofrestriad dros dro i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol oedd wedi gadael y gofrestr yn ystod y tair blynedd flaenorol. Roedd hyn yn golygu y gallent ddychwelyd i'r gwaith yn ystod pandemig coronafeirws COVID-19.

Gall y gweithwyr fferyllol proffesiynol hyn sydd wedi eu cofrestru dros dro ymarfer ym Mhrydain yn ystod argyfwng COVID-19. Mae'n rhaid iddyn nhw gyrraedd y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys gweithio o fewn terfynau eu sgiliau a'u cymhwysedd.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 3459 o fferyllwyr a 2984 o dechnegwyr fferyllol wedi eu cofrestru dros dro gyda ni.

## Darpar Gofrestriadau

Ym mis Mai 2020, cyflwynom ddarpar gofrestriadau ar gyfer hyfforddeion fferyllol cyn-gofrestru, oherwydd roedd cyfyngiadau COVID-19 yn golygu bod yn rhaid gohirio'r asesiadau cofrestru. Mae rhagor o wybodaeth am ddarpar gofrestriadau yn yr adran nesaf, ***Ymateb i bandemig COVID-19***.

## Ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol

Ym mis Mawrth 2021, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar ein dull o bennu ffioedd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol cofrestredig.

Ar 1 Ebrill 2021, cynyddwyd ffioedd derbyn ac adnewyddu fferyllfeydd cofrestredig o £262 i £365, i adlewyrchu cost rheoleiddio lleoliadau fferyllol. Cytunodd ein cyngor llywodraethu ar y strwythur prisiau diwygiedig, yn dilyn ymgynghoriad ar ffioedd ar gyfer lleoliadau fferyllol cofrestredig a gynhaliwyd rhwng Ionawr ac Ebrill 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y byddai'r cynnydd mewn ffioedd yn dod i rym ym mis Hydref 2020. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ar y sector fferyllol yn ystod pandemig COVID-19, penderfynodd y Cyngor oedi cyn cyflwyno'r cynnydd mewn ffioedd tan fis Ebrill 2021.

Arhosodd ffioedd ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol unigol yn ddigyfnewid yn 2020/21.

Rydym yn casglu adborth ar ein strategaeth ffioedd ddrafft. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth ariannol hirdymor i ddarparu sefydliad sy'n ariannol sefydlog ac sy'n gallu cyllido cost rheoleiddio yn effeithiol.

## Ymgynghori ar opsiynau newydd ar gyfer gallu ymgeiswyr i'r gofrestr o ran sgiliau Saesneg

Lansiwyd ein hymgynghoriad ym mis Medi 2020. Roedd yn cynnig y gallai pobl sy'n gwneud cais i ymuno â'r gofrestr fel fferyllydd neu dechnegydd fferyllol ddefnyddio llwyddiant diweddar i basio'r Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 6 Tachwedd, a chawsom dros 400 o ymatebion, gyda 96% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i dderbyn yr OET.

Cymeradwyodd cyngor llywodraethu'r CFfC y newidiadau yn sgil yr ymgynghoriad ac ym mis Mawrth cyhoeddwyd ein canllawiau diwygiedig ar dystiolaeth o sgiliau Saesneg. Mae'r rhain bellach yn derbyn pasio'r Prawf Saesneg Galwedigaethol Fferyllol (OET) fel tystiolaeth o allu yn yr iaith Saesneg.

# Datblygiadau allweddol yn 2020/21

## 1 Ymateb i bandemig Covid-19

Bu'n rhaid i ni wneud newidiadau cyflym i bob rhan o'n gwaith eleni, gan gynnwys arolygiadau fferyllol ac addysg a hyfforddiant fferyllol. Diben hyn oedd ein helpu i ymateb i'r heriau roeddem i gyd yn eu hwynebu ac i'n helpu i wneud yr hyn a allem i gynorthwyo fferylliaeth i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.

## 2 Cyflwyno safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr

Bydd y safonau newydd yn cyflwyno nifer o newidiadau pwysig. Bydd y rhain yn sicrhau bod fferyllwyr wedi'u harfogi ar gyfer eu rolau yn y dyfodol ac yn gallu diwallu anghenion y gwasanaethau iechyd ym mhob gwlad ac anghenion cleifion a'r cyhoedd.

## 3 Ymgynghori ar ein strategaeth newydd ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol

Yn 2020/21, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mawr gennym ar ein strategaeth ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol. Nod y strategaeth hon yw amddiffyn cleifion a’r cyhoedd yn well a bod yn deg â gweithwyr fferyllol proffesiynol ar yr un pryd.

## 4 Gwella'r ffordd rydym yn gweithio

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith i weithredu ein *Cynllun strategol 2020–25*, datblygu ein strategaeth ariannol tymor hirach, cefnogi a galluogi ein pobl, a gwella ein gwasanaethau ar-lein.

## Ymateb i bandemig Covid-19

Yn 2020/21 bu'n rhaid i ni, fel sefydliad, weithio mewn ffordd wahanol iawn. Treuliwyd y flwyddyn gyfan yn gweithio o bell, a chyflwynom ffyrdd newydd o weithio i sicrhau y gallem barhau i fod yn effeithlon ac yn effeithiol ym mhob rhan o'n gwaith.

### Newid y ffordd rydym yn gweithio

Sefydlwyd ein prosiect 'Ailosod ac Adnewyddu', i'n helpu i addasu at weithio o bell drwy'r sefydliad cyfan. Roedd y prosiect yn sicrhau bod gan ein staff yr offer, yr adnoddau a'r gefnogaeth roedd eu hangen i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel o gartref. Fe'n helpodd hefyd i gynllunio sut y byddem yn gweithio ar ôl y pandemig. Amddiffyn cleifion a'r cyhoedd drwy ofal fferyllol diogel ac effeithiol yw ein prif nod o hyd.

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi cynnal seilwaith a chymorth TG effeithiol. Sicrhaodd hyn ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyflawni ein swyddogaethau allweddol yn llawn. Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i helpu ein rheolwyr i arwain eu timau o bell. Addasom hefyd ein dulliau cyfathrebu mewnol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff, i gynnal ymgysylltiad ac i wneud i'r staff deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gyda ffynonellau gwybodaeth dibynadwy y gallent eu cyrchu'n gyflym. Roedd ein dull hefyd yn annog amgylchedd agored a chyfathrebol. Rydym wedi cydnabod effaith y pandemig a gweithio gartref ar iechyd meddwl a lles. Darparom gymorth ac adnoddau rheolaidd i'n cydweithwyr, a chyngor i'w helpu i ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth ychwanegol. Roedd gan staff hefyd yr hawl i ddod i'r swyddfa i weithio unwaith yr wythnos os oedd eu lles yn dibynnu ar hyn, yn dilyn asesiadau risg helaeth a mesurau i sicrhau swyddfa oedd yn ddiogel rhag COVID.

Sefydlwyd prosesau a systemau newydd gennym i'n helpu i fonitro ac adolygu gwybodaeth am yr hyn oedd yn digwydd yn y pandemig, ac i ymateb yn effeithiol i faterion wrth iddynt godi.

### Effaith y pandemig ar addysg a hyfforddiant

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Bu'n rhaid i fyfyrwyr fferylliaeth a thechnegwyr fferyllol a hyfforddeion cyn-gofrestru ymgymryd â'u haddysg a'u hyfforddiant mewn amgylchiadau heriol iawn. Mae hyfforddeion wedi chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol i gleifion yn ystod y cyfnod hwn ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am eu cyfraniad.

Mae darparwyr cyrsiau wedi addasu'n gyflym ac yn briodol i wneud newidiadau i'r ffordd y cyflwynir addysgu, dysgu ac asesu, tra'n sicrhau bod safonau addysg a hyfforddiant y CFfC yn cael eu cynnal. Rydym yn casglu gwybodaeth am y newidiadau a wnaed i'r ffordd y

cyflwynwyd cyrsiau a byddwn yn adrodd ar hynny yn ddiweddarach yn 2021.

## Achredu a chydnabod yn ystod y pandemig

Oherwydd bod lleoliadau addysg ar gau a chyfyngiadau teithio a chadw pellter cymdeithasol ar waith, ni fu'n bosibl achredu a chydnabod wyneb yn wyneb. Rydym wedi cynnal pob digwyddiad o bell yn ystod y cyfnod hwn. Rydym hefyd wedi gallu cyflwyno ein gofynion newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant staff cymorth fferyllol fel y'u bwriadwyd.

Yn ystod y pandemig cynhaliwyd cylch recriwtio pellach i'r panel achredu a chydnabod, er mwyn adnewyddu profiad ac arbenigeddau'r panel a'i wneud yn fwy amrywiol. Penodwyd cyfanswm o 23 o aelodau, o bob rhan o'r DU ac amrywiaeth o sectorau.

## Addysg a hyfforddiant fferyllwyr yn ystod y pandemig

### Hyfforddiant cyn-gofrestru a'r asesiad cofrestru

Fel arfer, cynhelir yr asesiadau cofrestru, y mae'n rhaid i bob fferyllydd dan hyfforddiant sefyll a phasio cyn gallu cofrestru'n fferyllydd, ym mis Mehefin a mis Medi mewn canolfannau asesu ledled Prydain. Bu'n rhaid gohirio sesiynau asesu 2020 gan nad oedd yn bosibl cynnal yr asesiadau mewn canolfannau arholi mawr tra bo gofynion ymbellhau cymdeithasol ar waith. Roedd ansicrwydd parhaus hefyd ynghylch pryd y byddai'r cyfyngiadau'n cael eu codi. Cydnabuwyd gennym hefyd bod:

- hyfforddeion cyn-gofrestru dan bwysau sylweddol a fyddai'n effeithio ar eu gallu i baratoi ar gyfer yr asesiad, ac
- y byddai angen mwy o fferyllwyr i helpu i ymateb i'r pandemig a darparu gofal i gleifion

Un o'n blaenoriaethau allweddol eleni oedd aildrefnu'r asesiad cofrestru ar gyfer y dyddiad cynharaf posibl, fel bod hyfforddeion yn cael cyfle i basio'r asesiad ac ymuno â'r gofrestr fferyllwyr.

Symudwyd yn gyflym hefyd i gyflwyno darpar gofrestriadau i hyfforddeion fferyllol cyn-gofrestru. Byddai hyn yn eu galluogi i gefnogi'r gweithlu fferyllol a helpu i ymateb i'r heriau a'r pwysau aruthrol oedd yn wynebu'r sector yn ystod y pandemig, tra'u bod yn disgwyl sefyll yr asesiad cofrestru dan yr amserlen newydd.

Drwy gydol y cyfnod hwn, daethom â rhanddeiliaid at ei gilydd mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd o bell i gael eu barn ar y camau yr oedd angen i ni eu rhoi ar waith i ymateb i effaith y pandemig ar addysg a hyfforddiant cyn-gofrestru. Gwnaethom hefyd gyfathrebu â hyfforddeion cyn-gofrestru ac ymgeiswyr posibl eraill yn rheolaidd, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ddatblygiadau ac ateb eu cwestiynau pan oedd hynny'n bosibl.

### Symud yr asesiad cofrestru ar-lein

Ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid, penderfynwyd symud yr asesiad cofrestru ar-lein gydag amserlen newydd. Roedd hyn yn golygu y gallai barhau hyd yn oed pe bai cyfyngiadau ar waith ar gyfer casgliadau mawr o bobl adeg yr asesiadau.

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal asesiadau ar-lein a bu symud ar-lein yn broses gymhleth.

Mae gennym gyfrifoldeb pwysig i sicrhau y gall ymgeiswyr gael asesiad cadarn a theg o'u gwybodaeth a'u sgiliau. Un o'r blaenoriaethau

allweddol oedd sicrhau bod y platfform ar-lein newydd yn cefnogi pob ymgeisydd, gan gynnwys rhai y gallai fod angen addasiadau arnynt, i gwblhau'r asesiad orau ag y gallent.

Mae gennym gyfrifoldeb pwysig hefyd i gleifion a'r cyhoedd i sicrhau mai dim ond ymgeiswyr sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol all basio'r asesiad, cofrestru fel fferyllydd ac ymgymryd â'r cyfrifoldebau sylweddol dros iechyd a lles pobl sydd ynghlwm wrth y rôl.

Cynhaliwyd proses gaffael drylwyr i sicrhau y gallai'r rhai miloedd o ymgeiswyr gael mynediad at yr asesiad ar-lein ar yr un pryd, tra'n bodloni ein gofynion manwl o ran ansawdd, diogelwch a hygyrchedd.

Yn dilyn y broses hon, penodwyd Pearson VUE i gynnal asesiadau cofrestru yn 2021. Pearson VUE yw'r arweinydd byd-eang mewn profion cyfrifiadurol ar gyfer rhaglenni profi academaidd, llywodraethol a phroffesiynol ledled y byd.

Gweithiom yn agos gyda Pearson VUE i bennu'r dyddiadau asesu cynharaf posibl, ym mis Mawrth 2021. Er mwyn bodloni ein gofynion manwl, penderfynwyd y byddai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn sefyll yr asesiad yn rhwydwaith helaeth Pearson VUE o ganolfannau profi llai eu maint, diogel rhag COVID, ledled Prydain Fawr – a thramor, ar gyfer ymgeiswyr nad oedden nhw'n byw ym Mhrydain. Nid oedd yn bosibl cynnal yr asesiadau cofrestru mewn lleoliadau mwy o faint, fel Canolfan Excel Llundain a oedd wedi'i thrawsnewid yn Ysbyty Nightingale y GIG.

Oherwydd gofynion ymbellhau cymdeithasol, lleihawyd capasiti yn y canolfannau profi. Felly, cynhaliwyd dau eisteddiad ar 17 ac 18 Mawrth ar gyfer pob ymgeisydd oedd am sefyll yr asesiad. Er mwyn cynnal uniondeb yr asesiad paratowyd dau bapur gennym, fel bod ymgeiswyr ar y naill ddiwrnod a'r llall yn ateb papur gwahanol.

Cyn yr asesiadau, rhoesom ddiweddariadau rheolaidd i ddarpar ymgeiswyr drwy e-byst, y cyfryngau cymdeithasol a gweminar, yn ogystal â digwyddiadau rhithwir eraill.

Yn ystod y cyfnod hwn, ein nod oedd ymateb mor gyflym â phosibl i unrhyw bryderon a phroblemau a godwyd gan ymgeiswyr a'r sefydliadau cynrychioli, ac i ddatrys y materion hyn cyn belled ag yr oedd modd. Roedd hyn yn cynnwys anfon datganiadau a diweddariadau e-bost rheolaidd at ymgeiswyr tramor, ac ymgeiswyr o'r DU nad oeddent yn gallu archebu lle yn syth i sefyll asesiad mis Mawrth yn agos i'w cartrefi. Rydym yn ymwybodol bod y broses archebu wedi achosi straen a phryder ychwanegol i rai ymgeiswyr. **Ymddiheurwyd i ymgeiswyr yr effeithiwyd arnynt ar y pryd**, a byddwn yn cymhwyso'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu, gyda Pearson VUE, at y sefyllfa ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Bydd hyn yn helpu i wella'r profiad i ymgeiswyr y dyfodol.

Cyflwynwyd y ddwy sesiwn asesu ym mis Mawrth yn llwyddiannus, gyda chyfanswm o 2666 o ymgeiswyr yn sefyll asesiadau cofrestru ar-lein cyntaf y CFfC a gynhaliwyd ar 17 ac 18 Mawrth. Gwnaeth y rhan fwyaf o ymgeiswyr yr asesiad yng nghanolfannau prawf Pearson VUE, gyda dim ond 83 o ymgeiswyr yn ei wneud o bell ym Mhrydain a thramor gan ddefnyddio system OnVUE Pearson.

Gwnaeth ymgeiswyr yr asesiad mewn 118 o ganolfannau yn Lloegr, 11 o ganolfannau yn yr Alban, 10 o ganolfannau yng Nghymru, pump yng Ngogledd Iwerddon, a saith y tu allan i'r DU.

Yn 2019, mewn saith o ganolfannau y gwnaeth ymgeiswyr eu hasesiadau.

Rydym wedi cyhoeddi'r dyddiadau ar gyfer asesiadau’r haf a'r hydref yn 2021, a fydd hefyd yn cael eu cynnal ar-lein. Rydym wedi rhannu gwybodaeth allweddol gyda darpar ymgeiswyr ar gyfer yr asesiadau hyn i'w helpu i wneud cais a pharatoi ar eu cyfer.

Er i ni gyflawni'r amcan cyffredinol o gynnal asesiadau ar-lein a oedd yn cynnal safonau ac yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr cymwys eu sefyll, mae nifer o wersi y gallwn eu dysgu o'r ymarfer heriol hwn. Rydym wedi cynnal adolygiad i adnabod y gwersi hyn. Mae ein Cyngor wedi ystyried yr adolygiad, ac rydym yn rhoi’r camau gweithredu a gynigiwyd gan y cyngor ar waith.

### Darpar gofrestriadau ar gyfer fferyllwyr

Ar ôl gohirio'r asesiadau cofrestru, penderfynodd ein Cyngor ganiatáu i hyfforddeion cyn-gofrestru ddarpar gofrestru fel fferyllwyr tan iddyn nhw allu gwneud yr asesiad cofrestru.

Roedd y penderfyniad hwn yn golygu bod hyfforddeion cyn-gofrestru a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpar gofrestriad yn gallu dechrau gweithio fel fferyllwyr ym mis Awst 2020. Dyma pryd y byddent wedi disgwyl dechrau gweithio pe baent wedi gallu gwneud a phasio'r asesiad cofrestru yn y ffordd arferol. Drwy hyn, bu modd i ni osgoi'r risg o fwlch sylweddol yn y gweithlu ar adeg o bwysau enfawr ar y gwasanaeth iechyd.

Roedd y dull yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- cynnal safonau ar gyfer derbyn i'r gofrestr, diogelu cleifion ac ansawdd y gofal i gleifion a'r cyhoedd nawr ac yn yr hir dymor
- cefnogi'r GIG a fferylliaeth gymunedol drwy gryfhau'r gweithlu yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn
- lleihau rhwystrau neu fylchau yn y 'biblinell' ar gyfer cofrestryddion newydd cymwys i ymuno â'r proffesiwn yn 2020 ac yn y blynyddoedd nesaf
- diogelu lles myfyrwyr a hyfforddeion, tra hefyd yn sicrhau bod eu gwaith caled a gwaith caled eu tiwtoriaid dros flynyddoedd lawer, yn cael cydnabyddiaeth briodol yn ystod y cyfnod allweddol hwn yn eu bywyd proffesiynol
- gwella'r broses o drosglwyddo o fod yn hyfforddai i fod yn fferyllydd drwy gryfhau'r fframwaith cymorth yn eu cyfnod gwaith cychwynnol

Mae'n rhaid i hyfforddeion fodloni meini prawf penodol i fod yn gymwys ar gyfer darpar gofrestriad. Mae’r rhain yn cynnwys:

- fod wedi ennill gradd MFfer achrededig gan y CFfC neu Raglen Asesu Fferyllwyr Tramor
- bod wedi dechrau hyfforddiant cyn-gofrestru yn ddim cynharach na mis Gorffennaf 2019, a
- bod wedi cwblhau 52 wythnos o hyfforddiant cyn-gofrestru yn llwyddiannus

Rhaid i gyflogwyr hefyd roi camau gofynnol ar waith – megis cynnal asesiad risg a sicrhau bod uwch fferyllydd ar gael i gynorthwyo'r hyfforddai – i ddiogelu cleifion ac ansawdd y gofal.

Cyhoeddwyd canllawiau gennym ar gyfer hyfforddeion, cyflogwyr a thiwtoriaid oedd yn cwblhau eu datganiadau, a gwnaethom adolygu'r rhain yn barhaus.

Gwnaeth dros 2400 o hyfforddeion cyn-gofrestru ddarpar gofrestru'n llwyddiannus o fis Awst 2020. Bydd darpar gofrestriadau'n parhau tan fis Ionawr 2022. Gadawodd ymgeiswyr a ddarpar gofrestrwyd ond a fethodd yr asesiad cofrestru y gofrestr ar ôl derbyn eu canlyniadau.

### Arolygon fferyllwyr darpar gofrestredig

Yn yr hydref, cynhaliwyd dau arolwg gennym o fferyllwyr darpar gofrestredig i sicrhau bod cyflogwyr wedi cyflawni eu rhwymedigaeth i gynnal asesiadau risg. Ar yr un pryd, gofynnwyd i fferyllwyr ddarpar gofrestredig:

- am eu cyflogaeth a'r lleoliadau fferylliaeth yr oedden nhw'n gweithio ynddynt
- oedd ganddynt uwch fferyllydd penodol, ac
- oedd ganddynt fynediad at gyngor ac arweiniad clinigol os oedd eu hangen arnynt

Cyhoeddwyd canfyddiadau'r arolwg ar ein gwefan ac fe'u rhannwyd â rhanddeiliaid allweddol hefyd. Ar draws y ddau arolwg, ymatebodd 49% o fferyllwyr darpar gofrestredig. Dywedodd mwyafrif helaeth y fferyllwyr darpar gofrestredig fod eu cyflogwr wedi cwblhau eu hasesiad risg (90%) a bod ganddynt fynediad at gyngor ac arweiniad clinigol pan oedd angen (98%).

Ym mis Mawrth, gwahoddwyd fferyllwyr darpar gofrestredig i gymryd rhan mewn ymchwil a gomisiynwyd gennym, dan arweiniad Prifysgol Keele. Bydd yr ymchwil hwn yn edrych ar effaith pandemig COVID-19 ar fferyllwyr darpar gofrestredig a hyfforddeion cyn-gofrestru, a bydd y canfyddiadau'n cael eu hadrodd yn 2021/22.

### Addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol

Ar ddechrau Ebrill gweithiom gyda Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU (APTUK) i anfon llythyr ar y cyd at dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant a goruchwylwyr addysgol am effaith pandemig COVID-19 ar hyfforddiant. Roedd y llythyr yn tynnu sylw at y ffaith y byddem yn ymagweddu'n hyblyg a chymesur at hyfforddiant y mae'r pandemig yn effeithio arno ac yn annog goruchwylwyr addysgol a rheolwyr hyfforddiant i weithredu yn yr un modd.

Ym mis Mai, cynhaliwyd cyfarfod rhithwir o randdeiliaid gydag APTUK ar gyfer cydweithwyr sydd ynghlwm wrth hyfforddiant cyn-gofrestru technegwyr fferyllol. Galluogodd hyn i ni drafod mwy ar faterion allweddol oedd yn effeithio ar hyfforddeion a goruchwylwyr addysgol.

Yn y cyfarfod hwn, dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod effaith y pandemig yn golygu bod technegwyr fferyllol dan hyfforddiant a oedd wedi gorffen eu hyfforddiant yn cael problemau o ran cael y dogfennau ategol yr oedd eu hangen arnynt i wneud cais i gofrestru. Mewn ymateb, buom yn gweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant technegwyr fferyllol i'w gwneud yn haws i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant a oedd wedi cwblhau eu cymhwyster yn llwyddiannus gofrestru gyda ni. Er enghraifft, cawsom restrau pasio gan ddarparwyr yn uniongyrchol, fel nad oedd angen i dechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant gael copïau o dystysgrifau cyn gwneud cais.

## Newid ein dull arolygu yn ystod y pandemig

Yn ystod y pandemig, daethom â'n rhaglen o arolygiadau fferyllol arferol i ben. Yn hytrach, canolbwyntiom ein hadnoddau ar gefnogi

fferyllfeydd cofrestredig gyda'u trefniadau a'u cynlluniau. Helpodd hyn nhw i reoli pwysau a heriau yn ystod y pandemig a sicrhau bod diogelwch cleifion a'r cyhoedd yn cael ei gynnal. Trefnwyd hefyd i'n harolygwyr gael yswiriant indemniad, fel eu bod yn gallu helpu mewn fferyllfeydd a oedd â llwythi gwaith uchel iawn yn ystod ton gyntaf y pandemig.

Drwy'r galwadau ac ymweliadau cymorth hyn, canfu ein harolygwyr 165 o enghreifftiau o arfer nodedig gan fferyllfeydd, gyda 154 o'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae fferyllfeydd wedi ymateb i bandemig COVID-19. Rhannwyd yr enghreifftiau hyn o arfer nodedig gyda'r gymuned fferyllol drwy ein hyb gwybodaeth ar-lein a'u hyrwyddo drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ein e-fwletin a sylw yn y cyfryngau. Y nod oedd helpu fferyllfeydd eraill i wella eu hymarfer ac ymateb yn effeithiol i'r heriau a'r anawsterau roeddent wedi bod yn eu hwynebu.

Ym mis Awst, dechreuodd ein harolygwyr ailedrych ar fferyllfeydd nad oeddent wedi cyrraedd pob un o'r safonau gynt. Canolbwyntion nhw ar fferyllfeydd gydag adroddiadau arolygu cyhoeddedig lle'r oedd angen ail-arolygiad chwe mis. Ymwelodd ein harolygwyr â'r fferyllfeydd hyn i weld a oeddent yn cyrraedd y safonau i gyd ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Cafodd yr arolygiadau hyn eu hatal unwaith eto pan ailgyflwynwyd cyfyngiadau cenedlaethol yn hydref 2020, gan ailddechrau ym mis Ebrill 2021.

Rydym bellach yn ystyried sut olwg fyddai ar raglen arolygu arferol fwy cymesur a mwy seiliedig ar risg, ac rydym yn gofyn i randdeiliaid am eu barn.

### Parhau i gynnal arolygiadau 'wedi'u harwain gan wybodaeth'

Drwy gydol y pandemig, rydym wedi parhau i weithredu'n gyflym ar unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd gennym oedd yn awgrymu risg i ddiogelwch cleifion, drwy gynnal arolygiadau 'wedi'u harwain gan wybodaeth'.

Mae hyn wedi cynnwys rhoi camau gorfodi ar waith yn erbyn 35 o fferyllfeydd oedd yn cyflenwi cyfeintiau amhriodol o codeine linctus. Cynhaliwyd arolygiadau wedi'u harwain gan wybodaeth ar y fferyllfeydd hyn oherwydd eu bod yn gwerthu cyfeintiau anarferol o uchel o codeine linctus.

Rydym yn parhau i weithio gyda Phwyllgorau Fferyllol Lleol (PFfLlau) a sefydliadau eraill ar draws fferylliaeth i godi ymwybyddiaeth o'r camau rydym yn eu rhoi ar waith yn barhaus o ran cyflenwi codeine linctus yn amhriodol gan fferyllfeydd cymunedol ac ar-lein.

Rydym hefyd wedi gweithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid allweddol ac wedi ymateb i ohebiaeth a anfonwyd atom gan gleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd ynghylch ein camau gorfodi.

### Cefnogi 'safleoedd dynodedig' dan arweiniad fferyllfeydd ar gyfer brechiadau COVID-19

Aethom ati'n rhagweithiol i sicrhau diogelwch 'safleoedd dynodedig' dan arweiniad fferyllfeydd ar gyfer brechiadau COVID-19. Gweithiom yn agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England and NHS Improvement (NHSE&I) i sicrhau bod gofynion rheoliadol a chyfreithiol yn cael eu hystyried fel rhan o fanyleb y gwasanaeth yn Lloegr. Bu ein harolygwyr hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr NHSE&I pan oedd safleoedd

brechu'n cael eu sefydlu, i sicrhau y byddai'r fferyllfeydd oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn yn gallu gwneud hynny'n ddiogel ac yn effeithiol.

Rydym hefyd yn rhoi gwybodaeth ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion fferyllfeydd oedd am gymryd rhan yn y rhaglen frechu i fodloni ein gofynion rheoliadol. Mae ein hyb gwybodaeth hefyd yn cynnwys 21 o enghreifftiau o arfer nodedig y gwelodd ein harolygwyr nhw mewn safleoedd brechu dan arweiniad fferyllfeydd. Gellir defnyddio'r rhain gan fferyllfeydd eraill sy'n sefydlu safleoedd brechu i wella eu hymarfer.

## Newid ein gofynion ailddilysu yn ystod y pandemig

Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddom ein bod yn newid y gofynion ailddilysu ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol oherwydd y pwysau roeddent yn ei wynebu yn ystod y pandemig.

Fel arfer, mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol gyflwyno chwe chofnod ailddilysu: pedwar cofnod datblygiad proffesiynol parhaus, sgwrs gyda chymheiriaid a chyfrif adfyfyriol. Cysylltom â gweithwyr fferyllol proffesiynol a oedd i fod i adnewyddu cyn diwedd mis Awst i roi gwybod iddynt mai dim ond cyflwyno cyfrif adfyfyriol y byddai'n rhaid iddynt wneud wrth adnewyddu eu cofrestriad.

O ystyried yr heriau y mae'r pandemig wedi parhau i'w cyflwyno, rydym wedi cadw'r dull hwn ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd i fod i adnewyddu cyn 30 Tachwedd 2021.

Byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn nes ymlaen yn y flwyddyn ar gyfer aelodau cofrestredig sydd i fod i gyflwyno eu cofnodion ailddilysu ar ôl 30 Tachwedd 2021, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.

Rydym wedi annog gweithwyr fferyllol proffesiynol i ystyried eu profiadau yn ystod pandemig COVID-19 wrth gwblhau eu cyfrif adfyfyriol.

### Rheoli pryderon yn ystod y pandemig

Cafodd y pandemig, a sut yr ymatebom iddo, effaith ar sut y rheolom rai o'r pryderon a gawsom. Er enghraifft, cafodd y newid o ran ffocws ein harolygwyr effaith ar waith arall, gan gynnwys sut roeddem yn rheoli pryderon a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried gan arolygwyr. Cyflwynom ddull mwy hyblyg a chymesur o ddod â phryderon nad oeddent yn peri risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd i ben, ac a fyddai fel arall wedi cael eu rheoli drwy ein rhwydwaith arolygwyr.

Datblygwyd dull o gefnogi'r rhai oedd gwneud penderfyniadau ynghylch pryderon uniongyrchol gysylltiedig â COVID-19 a fferyllfeydd cymunedol. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- pryderon am weithwyr yn methu â dilyn cyngor hunanynysu PHE pan amheuwyd bod ganddynt symptomau COVID-19, a
- phryderon naill ai gan y cyhoedd neu staff ynghylch defnyddio a rhannu cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys masgiau a menig

Buom hefyd yn gweithio gyda'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (ACM), gan gyhoeddi llythyr ar y cyd at berchnogion fferyllfeydd a fferyllwyr goruchwyliol ym Mhrydain. Amlygodd hyn fod y ddau reoleiddiwr wedi derbyn adroddiadau yn honni bod lleiafrif bach o fferyllfeydd yn ceisio elwa o'r pandemig

drwy godi prisiau anghyfiawn o uchel am gynhyrchion hanfodol. Roedd y llythyr hefyd yn nodi ein priod rolau a disgwyliadau o ran y mater hwn fel rheoleiddwyr.

## Symud i wrandawiadau o bell yn ystod y pandemig

Ym mis Mawrth 2020, penderfynom gynnal gwrandawiadau brys a hanfodol o bell gyda chytundeb yr unigolion dan sylw a'u cynrychiolwyr.

Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio yn haf 2020, cynhaliwyd nifer gyfyngedig o wrandawiadau yn y cnawd ochr yn ochr â'r rhai o bell. Roedd yr achosion a ddewiswyd gennym fel rhai mwy addas ar gyfer gwrandawiad 'wyneb yn wyneb' yn cynnwys rhai a oedd yn cynnwys materion arbennig o gymhleth, neu rai lle'r oedd nifer o dystion, yn ogystal ag achosion lle gofynnodd y person dan sylw am wrandawiad mewn person.

Ar ôl symud i gyfyngiadau haen 4 a lefel uchel yr heintiau ym mis Rhagfyr 2020, canslwyd pob gwrandawiad corfforol gennym tan y penderfynid yn wahanol. Fe wnaethom gynnig y dewis o wrandawiad o bell i bobl yr effeithiodd y penderfyniad arnynt. O ganlyniad i gynnal gwrandawiadau o bell, mae gennym ôl-groniad bach o saith o wrandawiadau lle mae'r aelod cofrestredig wedi gofyn am un wyneb yn wyneb. Rydym yn disgwyl cynnal y gwrandawiadau wyneb yn wyneb hyn dros y misoedd nesaf.

Rydym wedi gweld bod lefelau uwch o ymgysylltu â'n gwrandawiadau o bell o'u cymharu â gwrandawiadau wyneb yn wyneb, gydag 85% o aelodau cofrestredig yn bresennol dros y flwyddyn ddiwethaf, o'i gymharu â thua 65% cyn y cyfyngiadau symud. Rydym hefyd wedi derbyn adborth cadarnhaol ar y cyfan gan bawb a ddaeth i'n gwrandawiadau o bell. Rydym yn paratoi i gynnal rhai gwrandawiadau wyneb yn wyneb o fis Mai 2021 a byddwn hefyd yn parhau i gynnal gwrandawiadau o bell pan fydd hyn yn briodol.

## Ymateb i faterion allweddol yn ystod y pandemig

Ar ddechrau'r pandemig, rhoddom systemau a phrosesau newydd ar waith i'n helpu i adolygu'n barhaus yr hyn oedd yn digwydd ar draws fferylliaeth a gofal iechyd a sut y gallai fod angen i ni ymateb. Roedd hyn yn cynnwys creu tîm pwrpasol i ymateb yn gyflym i'r ymholiadau oedd yn cael eu codi gyda ni. Erbyn 31 Mawrth 2021, roedd y tîm wedi derbyn a datrys 343 o ymholiadau yn ystod 2020/21.

Drwy gydol y pandemig, rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- llywodraethau a'r GIG yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- rheoleiddwyr eraill
- cyrff cynrychioli
- cyrff fferylliaeth a gofal iechyd
- cyrff addysg a hyfforddiant, a
- sefydliadau'n cynrychioli cleifion a'r cyhoedd

Helpodd y dull hwn ni i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i faterion oed yn dod i'r amlwg ac ymholiadau drwy ryddhau datganiadau, cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan ac ymateb i ymholiadau a ddaeth drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol.

Sefydlom **dudalen gwe COVID-19 pwrpasol** ar ein gwefan, yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac atebion i gwestiynau yr oeddem

yn eu derbyn gan weithwyr fferyllol proffesiynol, perchnogion fferyllfeydd, hyfforddeion, myfyrwyr a'r cyhoedd. Defnyddiwyd ein sianeli cyfathrebu hefyd i hyrwyddo adnoddau a gwybodaeth allweddol COVID-19 gan lywodraethau, y GIG a chyrff eraill ymhlith gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Cyhoeddom hefyd wybodaeth fanwl am ein safbwynt ar wneud profion COVID-19 mewn fferyllfeydd. Roedd hyn er mwyn helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol a pherchnogion i ddeall ein gofynion rheoleiddiol a'u cyfeirio at adnoddau allweddol y gallent eu defnyddio.

Ar adegau allweddol yn y pandemig, cyhoeddom lythyrau ar y cyd â Phrif Swyddogion Fferyllol y DU a'r Pharmaceutical Society of Northern Ireland, i ddiolch i bawb oedd yn gweithio mewn fferylliaeth am eu gwaith hynod i leihau effaith argyfwng COVID-19 ar gleifion a'r cyhoedd ac i dynnu sylw at wybodaeth allweddol.

## Amddiffyn pobl agored i niwed yn ystod y pandemig

Yn 2020/21 gweithiom yn agos gyda Hestia, elusen sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig, i annog fferyllfeydd i gymryd rhan yn eu menter 'Mannau Diogel'. Amlygodd y fenter hon fod mwy o bobl yn cysylltu â llinellau cymorth camdriniaeth ddomestig yn ystod y cyfnodau cloi, a bod fferyllfeydd yn un o'r ychydig fannau diogel a oedd ar agor yn ystod y cyfnod hwn. Gwnaethom hyrwyddo'r fenter hon yn uniongyrchol i gyrff fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd y sector, a chysylltwyd hefyd â phob fferyllydd goruchwyliol drwy e-bost i'w hannog i gymryd rhan.

Mae dros 5,000 o fferyllfeydd ym Mhrydain bellach yn cymryd rhan ac mae Mannau Diogel wedi cael eu defnyddio ar dros 3,700 o achlysuron.

Rydym hefyd wedi cefnogi'r cynllun cam-drin domestig sy'n defnyddio cod-air 'Gofyn am ANI' ac a gefnogir hefyd gan y llywodraeth, ac wedi annog fferyllfeydd i gymryd rhan yn y cynllun hwn hefyd.

Mae'r cynllun Gofyn am ANI yn galluogi pobl sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy'n dioddef camdriniaeth ddangos yn dawel bod angen help arnynt a chael cymorth. Pan fydd rhywun yn gofyn am ANI, bydd gweithiwr fferyllol hyfforddedig yn cynnig man preifat lle gallant ddeall a oes angen i'r dioddefwr siarad â'r heddlu neu a hoffai gael help i gael mynediad at wasanaethau cymorth megis llinell gymorth cam-drin domestig genedlaethol neu leol.

Mae'r cynllun cod-air hwn yn gweithio ochr yn ochr â menter Mannau Diogel 'UK SAYS NO MORE' yr elusen Hestia drwy alluogi staff fferyllol i gynnig cymorth brys ar unwaith.

## Dysgu o'r pandemig

Rydym wedi ymrwymo i adolygu sut rydym wedi gweithredu yn ein holl feysydd gwaith yn ystod y pandemig, ac mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu:

- yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, a'r hyn nad yw wedi gweithio'n dda
- yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol, a'r

hyn y gallwn ei ddysgu, i'n helpu i barhau i wella'r ffordd rydym yn gweithio.

## Cyflwyno safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddom safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr. Bydd gweithredu'r safonau hyn yn trawsnewid addysg a hyfforddiant fferyllwyr am genhedlaeth, fel eu bod yn gallu chwarae rhan fwy o lawer wrth ddarparu gofal clinigol i gleifion a'r cyhoedd o'u diwrnod cyntaf un ar y gofrestr, gan gynnwys drwy bresgripsiynu meddyginiaethau.

Mae'r safonau'n nodi'r wybodaeth, y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r ymddygiad proffesiynol y mae'n rhaid i fyfyriwr neu fferyllydd dan hyfforddiant eu harddangos i basio eu haddysg a hyfforddiant cychwynnol ac i ymuno â'r gofrestr broffesiynol. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r gofynion sydd ar sefydliadau sy'n darparu addysg a hyfforddiant cychwynnol.

Bydd y safonau newydd yn cyflwyno nifer o newidiadau pwysig i sicrhau bod fferyllwyr wedi'u harfogi ar gyfer eu rolau yn y dyfodol.

Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys:

- cwmpasu'r pum mlynedd addysg a hyfforddiant llawn, a'u cysylltu â datblygiad parhaus fferyllwyr ar ôl cofrestru
- ymgorffori'r sgiliau, y wybodaeth a'r nodweddion sydd eu hangen i bresgripsiynu, fel y gall fferyllwyr bresgripisynu'n annibynnol o'r adeg cofrestru
- pwysleisio'r defnydd o wyddoniaeth mewn ymarfer clinigol a chynnwys mwy o ffocws ar y sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer rolau'r presennol a'r dyfodol – gan gynnwys crebwyll proffesiynol, rheoli risgiau, a sgiliau diagnostig ac ymgynghori
- gwneud y bumed flwyddyn o addysg a hyfforddiant cychwynnol yn flwyddyn hyfforddiant sylfaen, gyda:
  - gwell cymorth goruchwyliol i hyfforddeion
  - lleoliadau clinigol traws-sector gwell, a
  - chydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch, cyrff addysg statudol a chyflogwyr fel bod gan bob hyfforddai brofiad cyson a bod pawb yn cael yr un cyfleoedd
- mwy o bwyslais ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ymladd gwahaniaethu ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

### Datblygu a gweithredu'r safonau

Gweithiom yn agos â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyflogwyr, cyrff addysg statudol, sefydliadau addysg uwch a chyrff proffesiynol, yn ogystal â llywodraethau a'r cyhoedd yn ehangach, i gyrraedd y garreg filltir bwysig hon. Ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gennym yn 2020 yn ofalus wrth gwblhau'r safonau.

Mae'r grŵp rhanddeiliaid ymgynghorol a roddodd gyngor i'n Cyngor ar y safonau terfynol yn dal i weithio gyda ni i gyflwyno'r safonau a goruchwylio'r broses o'u gweithredu. Rydym yn

gweithio'n agos gyda'r cyrff addysg strategol ar y cynlluniau ar gyfer gweithredu'r safonau ym mhob gwlad.

Mae cynlluniau hefyd yn cael eu datblygu ym mhob un o wledydd y DU i sicrhau bod y gweithlu fferyllol presennol hefyd yn elwa ar fwy o gyfleoedd i hyfforddi fel presgripsiynwyr annibynnol, i ddatblygu sgiliau clinigol gwell ac i ddefnyddio'r sgiliau hynny wrth ymarfer.

### Y camau nesaf

Gan ddechrau yng Ngorffennaf/Awst 2021, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r radd MFfer a'r flwyddyn hyfforddi sylfaen dros y pum mlynedd nesaf i weithredu'r safonau newydd.

Gelwir y flwyddyn hyfforddiant cyn-gofrestru yn 'flwyddyn hyfforddi sylfaen' o Haf 2021 ymlaen, a bydd hyfforddeion cyn-gofrestru yn cael eu hadnabod fel 'fferyllwyr dan hyfforddiant'.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r cyrff addysg statudol (Health Education England, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac NHS Education for Scotland) i esbonio wrth bob cynulleidfa allweddol, gan gynnwys myfyrwyr a hyfforddeion, beth fydd yn digwydd a phryd, wrth i gynlluniau gweithredu ar gyfer pob gwlad gael eu cwblhau.

### Ymgysylltu ar ein dull o sicrhau ansawdd addysg a hyfforddiant

Yn ystod 2020/21, cynhaliom hefyd ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall eu disgwyliadau ynglŷn â’n dulliau sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant.

Cynhaliwyd y digwyddiadau ymgysylltu hyn gyda chleifion a'r cyhoedd, aelodau oedd wedi cofrestru’n ddiweddar, myfyrwyr a hyfforddeion, darparwyr addysg a hyfforddiant, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Bydd yr adborth a gawsom drwy'r ymgysylltu hwn yn ein helpu i ddatblygu a chynnig model o’n dulliau sicrhau ansawdd darparwyr addysg a hyfforddiant yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar y model hwn yn 2021/22.

## Ymgynghori ar ein strategaeth newydd ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus mawr ar ein strategaeth ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol ar 29 Hydref 2020. Nod y strategaeth hon yw rhoi gwell amddiffyniad i gleifion a'r cyhoedd a bod yn deg â gweithwyr fferyllol proffesiynol ar yr un pryd.

Mae'n adeiladu ar welliannau allweddol rydym eisoes wedi'u cyflwyno i'r ffordd rydym yn rheoli pryderon, yn rhan o'n nod cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn ffordd fwy effeithiol, teg a chymesur.

Mae'r strategaeth yn esbonio sut y byddwn yn symud oddi wrth ddull a all, ar adegau, fod yn wrthdrawiadol ac yn araf, ac a all yn aml effeithio'n andwyol yn anfwriadol ar iechyd meddwl a lles y bobl dan sylw. Yn lle hynny, rydym yn bwriadu rhoi camau cyflym ar waith i amddiffyn cleifion pan fydd angen, gan hyrwyddo diwylliant o ddysgu ac adfyfyrio ar yr un pryd fydd yn helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol i barhau i ymarfer pan fydd hynny'n briodol.

Mae'r strategaeth hefyd yn egluro sut y byddwn yn ystyried pob ffactor perthnasol ynghylch yr hyn aeth o'i le, gan gynnwys ystyried a oes methiannau sylfaenol yn y system. Rydym hefyd yn anelu at wella ein dealltwriaeth ynghylch pam rydym yn derbyn nifer uwch o bryderon am weithwyr proffesiynol du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) nag y dylid ei ddisgwyl.

Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol ac yn ein helpu i gyflawni Gweledigaeth 2030.

Yn ystod yr ymgynghoriad, clywsom farn ein holl randdeiliaid allweddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban drwy gyfarfodydd a grwpiau ffocws. Cawsom hefyd 188 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori a'r strategaeth derfynol yn 2021/22.

## Gwella'r ffordd rydym yn gweithio

Ym mis Mai 2020, cyhoeddom ein *Gweledigaeth 2030* a'n *Cynllun strategol 2020–25*, ar ôl i'n cynllun strategol gael ei osod yn seneddau'r DU a'r Alban.

Gweledigaeth 2030 yw ein gweledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer gofal fferyllol diogel ac effeithiol sydd wrth galon cymunedau iachach. Cafodd ein cynllun strategol a'n cynllun blynyddol eu datblygu cyn i bandemig COVID-19 daro. Ond maent wedi profi eu gwerth a'u perthnasedd wrth helpu i lywio ein gwaith a'n cynllunio hirdymor dros y deuddeg mis diwethaf.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19 a'i effaith ar fferylliaeth a'n gwaith, cwblhawyd dau ymarfer i ailflaenoriaethu ein cynlluniau a'n cyllideb dros y flwyddyn. Roedd hyn er mwyn i ni allu darparu ar gyfer y gwaith ychwanegol oedd yn gysylltiedig â COVID-19 a threfnu ac ailamserlennu gwaith presennol yn well a chreu amserlen fwy realistig i'w gyflawni. Helpodd yr ymarferion hyn ni i greu cyswllt rhwng gwahanol weithgareddau a sicrhau bod strategaethau ar waith i lywio ein gwaith.

Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau a'n cyllideb yn gyson mewn ymateb i'r ansicrwydd parhaus ynghylch y pandemig. Byddwn hefyd yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut y byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon a'r deilliannau a ddisgwyliwn.

### Ein strategaeth ariannol tymor hirach

I'n helpu i gynllunio a chynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy, rydym wedi parhau i weithio ar strategaeth ariannol tymor hirach. Mae hyn yn cadw'r cydbwysedd priodol rhwng ffioedd, cronfeydd wrth gefn a gwariant fel y gallwn dalu ein costau hyd at 2030. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau i fonitro ein costau gweithredu hefyd. Canolbwyntiwyd ar sut y mae'r pandemig a'n hymateb iddo wedi effeithio ar ein costau. Adroddwyd ar hyn yn rheolaidd i'r Cyngor a'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio.

### Gwella ein gwasanaethau ar-lein

Rydym wedi parhau gyda rhaglen fawr i wella'r gwasanaethau ar-lein rydym yn eu darparu ar gyfer ein haelodau cofrestredig, ac ar gyfer pobl sy'n gobeithio cofrestru gyda ni, tra hefyd yn gwneud y newidiadau oedd eu hangen i'n helpu i ymateb i'r pandemig. Ym mis Gorffennaf 2020, lansiwyd rhaglenni ar-lein gennym ar gyfer darpar gofrestriadau, oedd yn cynnwys awdurdodi adroddiadau allweddol gan diwtoriaid. Ac, ym mis Rhagfyr 2020, lansiwyd rhaglenni ar-lein ar gyfer yr asesiad cofrestru. Rydym wedi parhau i weithio ar ein strategaeth cwmwl TG i sicrhau bod ein seilwaith TG yn gefn i'n gwaith yn cyflawni ein gweledigaeth.

Dechreuom hefyd ar brosiect mawr i ailddatblygu ein gwefan gorfforaethol, gwaith fydd yn parhau yn 2022.

Rydyn ni'n dal i weithio ar gasglu'r data rydym wedi ei gael drwy ein gwaith rheoleiddio ac o ffynonellau allanol ynghyd, wrth i ni barhau i weithio tuag at wella:

- ansawdd a chysondeb y data sydd gennym

- ein seilwaith data, ac
- effeithlonrwydd ein hadroddiadau

## Cefnogi a galluogi ein pobl

Parhawyd â'n gwaith ar fentrau oedd wedi eu cynllunio ar gyfer ein pobl tra hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi'r sefydliad drwy gyfnod estynedig o weithio o bell.

Mae'r mentrau wedi cynnwys:

- croesawu'r ail grŵp i'n Rhaglen Datblygu Arweinwyr
- ein harolwg diweddaraf (a mwyaf llwyddiannus) yn ymgysylltu â chyflogeion, a
- chaffael trefniadau eDdysgu newydd

Mae lles cyflogeion yn dal i fod yn flaenoriaeth, ac rydym wedi darparu amryw o weithgareddau cymorth. Mae'r rhain wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'n rhwydwaith cymorth cyntaf iechyd meddwl a hyrwyddo ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr a'n gwasanaeth iechyd galwedigaethol. Gwnaethom ddarparu canllawiau a chymorth rheoli newydd i gydweithwyr hefyd, yn ogystal â pholisïau Adnoddau Dynol diwygiedig.

Cynhaliom gyfres o weminarau lles ac anfonom 'focs llesiant' at ein cydweithwyr. Roedd adborth yn cynnwys: "Roedd derbyn fy mocs drwy'r post ddoe yn golygu cymaint i fi. Rwy'n teimlo'n hynod lwcus a hynod falch fy mod i'n gweithio i sefydliad mor ofalgar" ac "Efallai nad ydw i wedi cwrdd ag unrhyw un o'r CFfC eto, ond rwy'n teimlo fy mod yn cael cymaint o gefnogaeth gan bob un ohonoch. Diolch i chi gyd am wneud i fi deimlo bod croeso i fi a 'mod yn rhan o'r tîm".

Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cynnydd ar y mentrau hyn, gan gynnwys drwy arolygon staff a chynlluniau gweithredu. Nesaf, bydd ein ffocws ar y gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi'r ffordd newydd rydym am i'n sefydliad weithio yn y dyfodol – sef adeiladu model gweithredu newydd a'i roi ar waith. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'r uchelgais sydd eisoes wedi ei amlinellu yn ein Gweledigaeth 2030.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Yn ystod 2020/2021, rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o'r CFfC a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (CAC) ddrafft: *Sicrhau cydraddoldeb, gwella amrywiaeth, a meithrin cynhwysiant: ein strategaeth ar gyfer newid 2021–2026.*

Mae'r strategaeth yn dod â ffocws ac egni newydd i'n hymdrechion i ddatblygu'r ffordd rydym yn sicrhau cydraddoldeb, yn gwella amrywiaeth ac yn meithrin cynhwysiant. Bydd yn rhoi fframwaith i ni gyflawni'r gwaith hwn drwy ein sefydliad cyfan, i gefnogi ein *Gweledigaeth 2030* a *Cynllun strategol 2020–2025*. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar y gwaith rydym eisoes yn ei wneud ac yn cydnabod strategaethau eraill fel ein strategaeth addasrwydd i ymarfer (sydd hefyd wedi'i datblygu yn y flwyddyn ariannol hon) ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw. Mae'r strategaeth yn egluro sut y byddwn yn cyflawni ein cyfrifoldebau statudol fel rheoleiddiwr a chyflogwr.

Edrychwn ymlaen at symud o ddatblygu ein dull at ei weithredu, a gweithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid mewnol ac allanol allweddol i gyflawni ein gweledigaeth CAC.

Yn ogystal â datblygu'r strategaeth, gwnaed sawl elfen o waith CAC yn y sefydliad cyfan a ysgogwyd hefyd gan ddigwyddiadau allanol mawr. Roedd y rhain yn cynnwys pandemig COVID-19 a'i effaith anghymesur ar grwpiau lleiafrifol, ac ail-godi mudiad Mae Bywydau Du o Bwys yn sgil marwolaeth George Floyd ym mis Mai 2020.

Gellir disgrifio'r gwaith CAC hwn yn fras fel a ganlyn:

## Ymgysylltu allanol

Cwrddom ag amrywiaeth o randdeiliaid allanol i drafod gwahanol agweddau ar gydraddoldeb. Er enghraifft, cwrddom â Stonewall ac elusennau LHDT+ eraill, i drafod ac archwilio'r rhwystrau y mae cleifion yn eu hwynebu wrth gael gafael ar ofal a chymorth yn gysylltiedig â throsi rhywedd, a meysydd gwaith ar y cyd posibl ar gyfer y dyfodol.

Llofnodwyd y Cyd-gynllun Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Fferylliaeth Gynhwysol yn Lloegr. Datblygwyd hyn gan Brif Swyddog Fferyllol NHS England and NHS Improvement, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Chymdeithas Technegwyr Fferyllol y DU. Mae'r gwaith yn adeiladu ar y Cyd-ddatganiad Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Fferylliaeth Gynhwysol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020.

Ym mis Mehefin 2020, gwnaethom nodi Pride am y tro cyntaf ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda logo’r enfys a thrydariadau perthnasol.

Cymerodd ein Prif Weithredwr a'n Cofrestrydd ran mewn trafodaeth banel ar y pwnc 'Ydy rheoleiddio'n rhy wyn?' a drefnwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Dewisom archwilio'r cwestiwn yng nghyd-destun safonau, a sut, gyda safonau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae angen eu hysgrifennu yng nghyd-destun anghenion a hawliau'r bobl a'r cymunedau sy’n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan ein haelodau cofrestredig.

## Gweithgareddau eraill

Gwnaethom barhau i asesu effaith polisïau a gweithdrefnau newydd ar gydraddoldeb, a chyhoeddi'r rhain ar ein gwefan.

Dechreuom ddarn newydd o waith yn asesu'r angen am ganllawiau cydraddoldeb ar gyfer perchnogion fferyllfeydd, i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen.

Cyhoeddwyd datganiad gennym yn sgil canfyddiadau adroddiad Public Health England ar **wahaniaethau yn risg a chanlyniadau COVID-19** a'r argymhellion a nodir yn ail ran yr adroddiad hwnnw ar **ddeall yr effaith ar grwpiau penodol**. Roedd ein datganiad yn cynnwys tynnu sylw at gyfrifoldebau perchnogion fferyllfeydd i adnabod a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau fferyllol a phwysigrwydd adolygu asesiadau risg presennol.

Cyhoeddom erthygl yn *Regulate* yn trafod sut gallai gweithwyr fferyllol proffesiynol deimlo'n bryderus ynghylch darparu'r gwasanaeth brechu rhag y ffliw eleni. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol pe baent mewn mwy o berygl o gael eu heintio â COVID-19: er

enghraifft, os oeddent o gefndir BAME a/neu os oedd ganddynt gyflwr iechyd hirdymor. Wrth ysgrifennu'r erthygl defnyddiwyd ymatebion gan randdeiliaid a oedd wedi eu targedu gennym, yn ogystal ag adborth gan weithiwr fferyllol proffesiynol unigol a rannodd ei brofiadau.

Fe wnaethom adrodd i'n cyngor ar agweddau CAC ein prosiect ailosod ac adnewyddu, gan gynnwys sut roeddem yn ystyried safbwyntiau ac anghenion amrywiol.

Cyhoeddom bolisi a dull newydd o reoli penodiadau i'r Cyngor, gyda phwyslais clir ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Datblygom hefyd ran newydd o’n gwefan, gyda gwybodaeth dryloyw am recriwtio, dethol ac argymhellion. Mae hyn yn gysylltiedig â datganiadau ar sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau cydraddoldeb cyfreithiol, ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth yn ein Cyngor.

## Gweithgareddau ymgysylltu mewnol a rhwydweithiau staff

Cyhoeddom gyfres o flogiau a gohebiaeth fewnol arall gan sawl cyfrannwr, gan gynnwys uwch aelodau'r grŵp arwain a Hyrwyddwyr CAC, i:

- godi ymwybyddiaeth am faterion cydraddoldeb allweddol, gan gynnwys hawliau anabledd, cydraddoldeb hiliol, hawliau LHDTC+, a
- chynhyrchu syniadau ar gyfer ein gwaith yn datblygu strategaethau a gwaith arall

Cynhaliodd ein rhwydweithiau staff nifer o ddigwyddiadau rhithwir gydol y flwyddyn i annog staff i barhau i ymgysylltu, i annog sgyrsiau 'anodd' ac i gadw momentwm. Yn benodol:

- Cynhaliodd ein Rhwydwaith BAME gyfres o ddigwyddiadau rhithwir i'r staff i gyd ar hiliaeth yn dilyn marwolaeth George Floyd ym mis Mai 2020 a'r protestiadau byd-eang dilynol yn erbyn trais gan yr heddlu, yn y cyfnod yn arwain at Fis Hanes Pobl Dduon ym mis Hydref 2020. Yn ystod y digwyddiadau hyn, rhannodd cydweithwyr brofiadau a safbwyntiau personol ar hiliaeth a gwahaniaethu ac argymhellwyd sawl adnodd i gydweithwyr ar gyfer hunan-addysgu a chodi ymwybyddiaeth. Mewn trafodaeth banel, rhannodd gweithwyr proffesiynol fferyllol du eu profiad o hiliaeth, rheoleiddio gofal iechyd a syniadau am ddyfodol fferylliaeth.
- Cynhaliwyd digwyddiadau ar y cyd rhwng y Rhwydweithiau BAME a Menywod yn cynnwys trafodaeth gyda'r fenyw ddu gyntaf i fod yn Llywydd Coleg Brenhinol y Milfeddygon, a sgwrs gydag Uwch Fferyllydd Clinigol HTC a Fferyllydd Cymunedol Locwm ar bynciau fel rhywiaeth, rhagdybiaethau a stereoteipiau rhyw, ffydd ac ethnigrwydd.
- Cawsom sesiwn draws-reoleiddio gydag un o'n partneriaid cysylltiol a phartneriaid eraill, yn ystyried yr heriau a'r bylchau dydd i ddydd mewn gwahanol leoliadau rheoleiddio o ran cynrychiolaeth a chynhwysiant LHDTC+.
- Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, adfyfyriodd rhai o aelodau benywaidd y Cyngor ar gynnydd o ran cydraddoldeb rhywiol, mewn digwyddiad ar gyfer y staff i gyd. Disgrifiodd aelodau'r Cyngor y rhagfarn a'r rhagdybiaethau yr oeddent wedi gorfod

eu hwynebu a'u herio yn ystod eu gyrfaoedd, a llwyddiannau personol o ran cyflawniadau, arweinyddiaeth a chynnydd wrth roi llais i fenywod yn y broses gwneud penderfyniadau.

## Hyfforddi a meithrin gallu

Cynhaliodd yr uwch grŵp arwain sesiwn ar gydraddoldeb hiliol a chyfrifoldebau arwain. Mae hyn bellach yn cael ei ddatblygu'n ddarn ehangach o waith i lywio ein dull o ymdrin ag arweinyddiaeth gynhwysol, yn gysylltiedig â'n fframwaith ymddygiadol.

Cynhaliwyd gweithdai rhagfarn ddiarwybod gennym, dan arweiniad hwylusydd allanol, gyda mynychwyr o bob lefel a rhan o'r sefydliad. Rydym hefyd wedi cynnal hyfforddiant mewnol ar y wefan a’r app symudol ynghylch y gofynion hygyrchedd sydd ar gyrff y sector cyhoeddus.

Mae gweithdai gyda thimau ac aelodau pwyllgorau statudol perthnasol y CFfC wedi ein helpu i baratoi ar gyfer ein cynllun peilot gwneud penderfyniadau dienw yn achosion y pwyllgor ymchwilio, a datblygu’r cysylltiadau ehangach â'n strategaeth.

Cynhaliwyd gweithdy penodol 'CAC mewn addasrwydd i ymarfer' yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu mewnol ar gyfer yr ymgynghoriad ar y strategaeth Addasrwydd i Ymarfer newydd.

## Cyfathrebu â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu deall a chymryd rhan yn ein gwaith, fel y nodir yn ein **Cynllun iaith Gymraeg**.

Yn ystod 2020/21, rydym wedi parhau i gyhoeddi ein dogfennau allweddol yn y Gymraeg, gan gynnwys safonau, canllawiau a'n canllaw i'r cyhoedd ar yr hyn i'w ddisgwyl wrth ymweld â fferyllfa.


Rydym wedi postio ar y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, er mwyn helpu i hyrwyddo'r gwaith hwn i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith. Rydym wedi parhau i ddefnyddio Recite Me ar ein gwefan, a'n gwefan cyhoeddi arolygiadau. Offeryn hygyrchedd yw hwn sy'n cynnwys cyfieithu Cymraeg awtomataidd.

### Safonau’r Gymraeg

Rydym yn aros i reoliadau'r Gymraeg gael eu cyflwyno ar gyfer rheoleiddwyr iechyd proffesiynol ac rydym wedi gweithio gyda'r rheolyddion eraill a Llywodraeth Cymru i ddeall sut y bydd y safonau'n berthnasol i ni.

# Adroddiad addasrwydd i ymarfer blynyddol

## Sut daeth pryderon atom yn 2020/21




**Beth yw 'addasrwydd i ymarfer'?**

Addasrwydd i ymarfer yw pan fydd gan rywun y sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Gall gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn anaddas i ymarfer am nifer o resymau, y ffactorau canlynol, er enghraifft:

- mae eu hymddygiad yn rhoi cleifion mewn perygl
- maen nhw'n ymarfer mewn ffordd anniogel, neu
- gall eu hiechyd fod yn effeithio ar eu gallu i lunio barn ddiogel am eu cleifion

Mae ymdrin yn effeithiol â phryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer wrth wraidd ein hymrwymiad i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd, a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

Os ydych chi'n poeni nad yw fferyllydd neu dechnegydd fferyllol sydd wedi cofrestru gyda ni yn addas i ymarfer, gallwch **adrodd am eich pryder wrthon ni**.

Gallwch ddarllen mwy am **y ffordd rydym yn ymdrin â phryderon addasrwydd i ymarfer** ar ein gwefan.

## Sut rydym yn ymdrin â phryderon

Pan fyddwn yn derbyn pryder am addasrwydd rhywun i ymarfer rydym yn gwirio a ydynt ar ein cofrestr ac yn asesu a ddylai'r pryder gael ymchwiliad llawn. Mae'r gwiriad cyntaf hwn yn ein helpu i benderfynu ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf. Mae'n bosibl y bydd y pryder hwnnw'n cael ei gau bryd hynny oherwydd nad yw o fewn ein pwerau i ddelio ag ef. Pan mai hyn fydd yr achos, byddwn yn cyfeirio pobl at reoleiddwyr eraill a alla ddelio â'r pryder.

Os gallwn fwrw ymlaen, byddwn yn dechrau ymchwiliad. Fel arfer, gweithiwr achos neu arolygydd fydd yn arwain hyn. Yn dilyn yr ymchwiliad, gallem benderfynu:

- peidio â gwneud unrhyw beth pellach
- cyhoeddi llythyr yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer gwaith y gweithiwr proffesiynol dan sylw yn y dyfodol
- creu cytundeb gwirfoddol gyda'r aelod cofrestredig i reoli'r pryder
- argymell bod y dystiolaeth yn cael ei hystyried gan bwyllgor ymchwilio, neu
- gyda'r pryderon mwyaf difrifol, eu cyfeirio'n uniongyrchol at y pwyllgor addasrwydd i ymarfer

Mae llawer o bryderon yn cael eu cau ar y cam cyntaf hwn, o'r enw brysbennu, yn aml gyda chanllawiau sy'n esbonio i'r gweithiwr fferyllol proffesiynol dan sylw yr hyn sydd angen ei ddysgu o'r pryderon a fynegwyd. Dim ond y pryderon mwyaf difrifol sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor ymchwilio neu sy'n cyrraedd y pwyllgor addasrwydd i ymarfer.

Gall y Pwyllgor Ymchwilio (PY), sy'n cwrdd yn breifat, benderfynu:

- peidio â gweithredu
- cytuno ar 'addewidion' gydag aelod cofrestredig (addewidion gan aelodau cofrestredig o ran pethau y byddant neu na fyddant yn eu gwneud yn y dyfodol, a gallant gynnwys cyfyngiadau ar eu hymarfer neu eu hymddygiad neu ymrwymiad i gael eu goruchwylio neu ailhyfforddi)
- cyhoeddi llythyr o gyngor
- roi rhybudd, neu
- gyfeirio'r achos at bwyllgor addasrwydd i ymarfer ar gyfer gwrandawiad

Mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer (PAY) yn banel sy'n gweithredu'n annibynnol ar y CFfC, ac fel arfer mae'n cynnwys tri aelod.

Mae'r PAY, sydd fel arfer yn cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus, yn penderfynu a yw gweithiwr fferyllol yn addas i ymarfer.

Os bydd yn canfod nad yw'n addas i ymarfer, gall:

- roi rhybudd
- gosod amodau, neu addewidion, sy'n gosod cyfyngiadau am gyfnod o hyd at dair blynedd ar sut y gall yr aelod ymarfer
- ei atal o'r gofrestr am gyfnod o hyd at 12 mis, neu
- ei ddileu o'r gofrestr

Os byddwn yn derbyn pryder pan fydd ymddygiad neu ymarfer gweithiwr fferyllol yn peri risg barhaus ddifrifol i ddiogelwch cleifion, neu os oes ganddynt gyflwr iechyd sy'n golygu eu bod yn risg i'w hunain neu'r cyhoedd, gallwn wneud cais i'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer am 'orchymyn dros dro'. Mae gorchmynion dros dro yn caniatáu i gofrestriad gweithiwr fferyllol gael ei atal dros dro, neu'n gosod amodau, tra byddwn yn cynnal ein hymchwiliad.

## Canlyniadau achosion a gaewyd yn 2020/21

| **Cam 1: brysbennu** | |
|---|---|
| Dim camau pellach | 1,062 |
| Gwybodaeth | 1,047 |
| Cyfeirio at gorff pryderon arall | 248 |
| Canllawiau | 23 |
| **Cyfanswm** | **2,380** |

| **Cam 2: Ymchwiliad** | |
|---|---|
| Dim camau pellach | 214 |
| Llythyr o gyngor gan y tîm ymchwiliadau | 118 |
| Cytundeb gwirfoddol | 1 |
| **Cyfanswm** | **333** |




**Cyfanswm achosion a gaewyd: 2,772**

| **Cam 3: Pwyllgor Ymchwilio** | |
|---|---|
| Rhybudd gan y pwyllgor ymchwilio | 20 |
| Llythyr o gyngor | 4 |
| **Cyfanswm** | **24** |

| **Cam 4: Pwyllgor addasrwydd i ymarfer** | |
|---|---|
| Dileu o'r gofrestr | 10 |
| Dileu dros dro o'r gofrestr | 9 |
| Rhybudd | 8 |
| Amodau ar aelodaeth | 4 |
| Dim camau pellach | 3 |
| Cyngor | 1 |
| **Cyfanswm** | **35** |

## Ymdrin â phryderon yn 2020/21

### Nifer y pryderon a gawsom

Eleni, cynyddodd nifer y pryderon a fynegwyd wrthon ni. Yn 2020/21 derbyniom 2,998 o bryderon, 13 mwy nag yn 2019/20 a 324 mwy nag yn 2018/19.

Mae'n anodd rhoi rhesymau dros y cynnydd gan fod llawer o resymau posibl ac ni fu unrhyw gynnydd nodedig mewn mathau unigol o bryderon.

## Ffynhonnell y pryderon

Bu rhai newidiadau bach yn ffynonellau’r pryderon. Parhaodd aelodau'r cyhoedd i godi dros hanner y pryderon, ac mae’r nifer wedi cynyddu ychydig ers y llynedd. Mae pryderon gan gyflogwyr, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ac arolygwyr CFfC/atgyfeiriadau mewnol wedi gostwng. Mae pob ffynhonnell arall wedi cynyddu, a'r cynnydd mwyaf nodedig mewn pryderon yw'r rhai gan yr heddlu a sefydliadau gorfodi eraill sydd wedi mwy na dyblu.

## Canlyniadau brysbennu

Caewyd cyfanswm o 2,380 o bryderon yn ystod y cam hwn yn 2020/2021 (79% o'r holl bryderon a fynegwyd). Mae hyn yn cymharu â 1,405 yn 2019/20 (47% o'r holl bryderon a fynegwyd) a 1,027 yn 2018/19 (39% o'r holl bryderon a fynegwyd). Yn gynnar yn y pandemig, wrth i'n harolygwyr ganolbwyntio ar ddarparu cymorth ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, cyflwynom ddull newydd o reoli rhai pryderon. Roedd yn rhaid i ni fod yn fwy hyblyg a chymesur o ran ein dull o ddod â phryderon nad oeddent yn peri risg i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd i ben, ac a fyddai fel arall wedi cael eu rheoli drwy ein rhwydwaith arolygwyr.

Defnyddiom ddull seiliedig ar risg mewn achosion lle nad oedd diogelwch cleifion yn ystyriaeth. Ymdriniwyd â’r pryderon hyn naill ai fel gwybodaeth y gallem ei defnyddio yn ein gwaith arolygu, neu fe wnaethom eu datrys drwy ein rhwydwaith o arolygwyr pan oedd hynny'n briodol. Rydym wedi cofnodi'r pryderon hyn fel 'gwybodaeth' yn yr adran 'Cam Cyntaf' yn y graffig uchod. Cawsom 1,047 o bryderon o'r math hwn ac mae hyn yn cyfrif am y nifer fwy o bryderon a gaewyd ar y cam hwn.

Cynyddodd nifer y pryderon a gaewyd heb unrhyw gamau pellach o 1,003 i ychydig dros 1,062, a gostyngodd y pryderon a gaewyd gennym gyda chanllawiau ar y cam hwn o 81 i 23. Gostyngodd nifer y pryderon a gaewyd drwy 'gyfeirio' y person a oedd yn codi'r pryder i sefydliad arall o 321 i 248.

Er ein bod yn cau nifer fawr o bryderon heb unrhyw gamau pellach, nid yw'r pryderon hyn yn ymwneud â risgiau i ddiogelwch cleifion, felly nid ydynt yn codi materion y mae'n rhaid ymdrin â nhw drwy brosesau addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, rydym yn cadw cofnod o'r wybodaeth a dderbynnir. Rydym yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio ein rhaglen arolygu a gallwn ei hystyried os byddwn yn derbyn rhagor o bryderon am weithwyr proffesiynol neu leoliadau penodol.

Byddwn yn parhau i ddadansoddi ein data er mwyn chwilio am dueddiadau a deall natur y pryderon rydym yn eu cau yn gynnar yn y broses. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon yn ehangach i helpu pobl sydd am fynegi pryder i ddeall yr hyn y gallwn a’r hyn na allwn ddelio ag ef.

### Canlyniadau ymchwiliadau

Caewyd 118 o achosion gyda chanllawiau yn dilyn ymchwiliad, 214 heb unrhyw gamau pellach, a daethom i gytundeb gwirfoddol gydag un gweithiwr proffesiynol yn y flwyddyn adrodd hon. Mae hyn yn cymharu â 705 o achosion wedi'u cau gyda chyfarwyddyd a 761 wedi'u cau heb unrhyw gamau pellach yn 2019/20.

Esbonnir y gostyngiad hwn gan y ffordd wahanol, yr ydym wedi ei disgrifio uchod, mae pryderon wedi cael eu rheoli a’u hadrodd gennym, y byddent fel arfer wedi cael eu rheoli drwy ein rhwydwaith o arolygwyr. Fel arfer,

byddem yn adrodd am yr holl bryderon a reolir drwy ein harolygwyr o dan 'ganlyniadau ymchwiliadau'. Fodd bynnag, ers cyfnod cynnar y pandemig, rydym wedi cofnodi bod y pryderon hyn wedi'u cau ar brysbennu.

### Canlyniadau pwyllgorau ymchwilio ac addasrwydd i ymarfer

Bu gostyngiad yn nifer y pryderon a gyfeiriwyd at bwyllgorau ymchwilio ac addasrwydd i ymarfer. Cyfeiriwyd cyfanswm o 59 o bryderon at y pwyllgorau yn 2020/21 - gostyngiad o'r 76 a gyfeiriwyd yn 2019/20. Gostyngodd cyfanswm nifer y pryderon a gafodd eu cau mewn pwyllgor ymchwilio o 34 yn 2019/20 i 24 yn 2020/21. Mae nifer y pryderon lle y cyhoeddodd pwyllgor ymchwilio gyngor neu rybudd yn debyg yn fras i'r flwyddyn flaenorol. Ni chyhoeddwyd unrhyw addewidion gan y pwyllgor ymchwilio yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Gostyngodd cyfanswm nifer y gwrandawiadau o 40 yn 2019/20 i 35 yn 2020/21. Roedd nifer yr achosion lle rhoddodd pwyllgorau addasrwydd i ymarfer amodau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Ymchwiliwyd i dri o bryderon heb unrhyw gamau pellach. Ni chafwyd unrhyw wrandawiadau gyda chyngor yn cael ei roi yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Cynyddodd nifer y rhybuddion o dri yn 2019/20 i wyth yn 2020/21. Bu gostyngiad yn nifer yr achosion a ddaeth i ben drwy atal neu ddileu o'r gofrestr o 17 yn 2019/20 i 9 yn 2020/21 ac o 16 yn 2019/20 i 10 yn 2020/21 yn y drefn honno.

Nid yw symud gwrandawiadau ar-lein wedi effeithio'n sylweddol ar nifer y canlyniadau achos yn 2020/21.

### Gwella'r ffordd rydym yn gweithio

Yn ogystal â'n gwaith ehangach ar ein strategaeth rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol, rydym yn parhau i ffocysu ein rhaglen wella ar y prif wendidau a risgiau a nodwyd yn adolygiadau perfformiad 2018/19 a 2019/20 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol. Dyma oedden nhw:

- cau yn ystod y cam asesu cychwynnol, gan mai dyma lle mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn y dull gweithredu yn cael eu treialu, a lle bu'r cynnydd mwyaf yn y nifer o bryderon a gaewyd
- effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ymdrin ag achosion ymchwilio, gan gynnwys:
  - ymdrin yn brydlon ag achosion ar bob cam
  - amlder ac ansawdd ein hasesiadau risg
  - ansawdd gofal cwsmeriaid (megis pa mor aml roeddem yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, empathi wrth gyfathrebu, a defnyddio iaith glir a dealladwy), ac
  - effeithiolrwydd ein trefniadau adolygu achosion diwygiedig wrth ein helpu i wneud cynnydd gydag ymchwiliadau
- y rhesymu dros ein penderfyniadau – yn ystod y camau brysbennu neu atgyfeirio

**Sut mae cael gwybod am wrandawiadau addasrwydd i ymarfer?**

Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn gyhoeddus yn ein Canolfan Gwrandawiadau Fferyllol ac mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu.

Mae rhai gwrandawiadau pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal yn breifat os, er enghraifft, oes materion yn ymwneud ag iechyd cofrestrydd.

Gallwch **ddarllen pa wrandawiadau sydd ar y gweill**, ac am **benderfyniadau mae'r pwyllgor addasrwydd i ymarfer wedi'u gwneud** ar ein gwefan.

# Y gofynion adrodd sydd arnom

O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010 mae rhai eitemau y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt i ddangos ein hatebolrwydd i'r senedd.

Rhaid i ni gyhoeddi adroddiadau a chyfrifon blynyddol, a'u cyflwyno i Swyddfa'r Cyfrin Gyngor i'w gosod yn seneddau'r DU a'r Alban.

Rhaid i ni gyhoeddi:

- adroddiad blynyddol ar sut rydym wedi cyflawni ein gwaith, gan gynnwys y trefniadau sydd gennym i sicrhau ein bod yn dilyn arferion da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth
- adroddiad ystadegol sy'n dangos effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein trefniadau i amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag aelodau cofrestredig y mae nam ar eu haddasrwydd i ymarfer. Mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r trefniadau a sylwadau'r Cyngor ar yr adroddiad
- cyfrifon blynyddol, ar ffurf a bennwyd gan y Cyfrin Gyngor
- adroddiad ein harchwilwyr allanol ar ein cyfrifon

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i fodloni'r gofynion hyn.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyhoeddi 'penderfyniad cyfrifon', sy'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i ni ei gynnwys wrth baratoi ein cyfrifon blynyddol. Mae'r penderfyniad ynghylch cyfrifon yn atodiad 1 ein datganiadau ariannol. Cynhyrchwyd ein cyfrifon yn unol â'r penderfyniad hwn.

Fel corff a ariennir gan ffioedd cofrestryddion ac sy'n annibynnol ar y llywodraeth, nid yw canllawiau’r trysorlys ar reoli arian cyhoeddus ar waith i ni. Ond rydym yn dymuno dilyn arfer gorau, o ran bod yn dryloyw ac o ran cyfathrebu ag aelodau o'r cyhoedd, sef ein prif randdeiliaid. Felly, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein gwaith adrodd mor glir a syml â phosibl, gyda chyn lleied â phosibl o ddyblygu.

Rydym wedi darparu datganiad llywodraethu gan y prif weithredwr a chofrestrydd. Mae hyn yn cwmpasu'r systemau sydd gennym i gefnogi strategaeth ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu asedau'r sefydliad. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys adolygiad y prif weithredwr ar effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol.

# Ein dull llywodraethu

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CFfC ac fe'i penodir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n pennu cyfeiriad ac amcanion strategol y sefydliad, yn unol â'i amcanion statudol. Mae'n monitro perfformiad y sefydliad, a pherfformiad yr uwch grŵp arwain. Mae hefyd yn diogelu asedau'r sefydliad ac yn sicrhau bod ei gweithdrefnau ariannol yn cael eu cyflawni’n briodol.

Mae gan Gyngor y CFfC 14 o aelodau: saith aelod lleyg a saith aelod cofrestredig. Mae o leiaf un aelod yn byw neu'n gweithio ymhob un o’r tair gwlad, Cymru, Lloegr a'r Alban. Eleni, dechreuodd Rose Marie Parr, Selina Ullah a Yousaf Ahmad, eu tymor fel aelodau Cyngor ar 1 Ebrill 2020.

## Tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor Ebrill 2020 i Fawrth 2021

Dim ond presenoldeb aelodau'r cyngor mewn cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd mae'r tabl hwn yn ei gofnodi. Roedd hon yn flwyddyn anarferol iawn, gyda holl gyfarfodydd y Cyngor wedi eu cynnal o bell. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd ychwanegol, mwy anffurfiol hefyd gyda’r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am ddatblygiadau'n gysylltiedig â COVID ac i gynnal sesiynau gweithdy. Daeth y rhan fwyaf o'r aelodau i’r rhan fwyaf o'r sesiynau hyn yn ogystal â'r cyfarfodydd ffurfiol.

Cymerodd aelodau'r Cyngor ran mewn cyfarfodydd a digwyddiadau eraill, gan gynnwys gweithio ar grwpiau sicrwydd a chynghori, a gweithio gyda'n rhanddeiliaid drwy fynychu digwyddiadau o bell.

**Tabl1: Tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor Ebrill 2020 tan Fawrth 2021**

| Enw | Aelod cofrestredig neu leyg | Tâl[1] £ | Cyfarfodydd cyngor fynychwyd[2] | Cyfarfodydd pwyllgor gynhaliwyd neu fynychwyd |
|---|---|---|---|---|
| Nigel Clarke[3] | Lleyg | 56,000 | 11 o 11 | PCCh* 6 o 6 |
| Aamer Safdar | Fferyllydd | 12,500 | 11 o 11 | PAR** 3 o 4 |
| Ann Jacklin | Fferyllydd | 12,500 | 10 o 11 | PAR 4 o 4 |
| Arun Midha | Lleyg | 12,500 | 9 o 11 | PwyllTâl*** 4 o 4 |
| Elizabeth Mailey[4] | Fferyllydd | 15,000 | 10 o 11 | PwyllTâl 4 o 4 |
| Jayne Salt | Lleyg | 12,500 | 10 o 11 | PAR 1 o 4 |
| Joanne Kember | Fferyllydd | 12,500 | 11 o 11 | PwyllTâl 2 o 4 |
| Mark Hammond[5] | Lleyg | 15,000 | 11 o 11 | PCCh 6 o 6 |
| Neil Buckley[6] | Lleyg | 15,000 | 9 o 11 | PAR 4 o 4 |
| Rima Makarem | Lleyg | 12,500 | 8 o 11 | PCCh 5 o 6 |
| Rose Marie Parr | Fferyllydd | 12,500 | 11 o 11 | PCCh 6 o 6 |
| Penny Hopkins | Technegydd fferyllol | 12,500 | 9 o 11 | PCCh 6 o 6 |
| Selina Ullah | Lleyg | 12,500 | 10 o 11 | PwyllTâl 3 o 4 |
| Yousaf Ahmad | Fferyllydd | 12,500 | 11 o 11 | PAR 4 o 4 |

## Nodiadau tabl tâl a phresenoldeb aelodau'r Cyngor

*	Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

**	Pwyllgor Archwilio a Risg

***	Pwyllgor Tâl

1. Rhoddir tâl aelodau'r cyngor fel ffigur gros.
2. Mae'r ffigurau presenoldeb yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol a gweithdai anffurfiol y Cyngor, a phresenoldeb pwyllgorau. Rhaid i holl aelodau'r cyngor gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill fel diwrnodau strategaeth, cyfarfodydd rhanddeiliaid a grwpiau gorchwyl a gwneud y gwaith paratoi perthnasol. Nid ydynt yn derbyn tâl ychwanegol ar gyfer y rhain.
3. Cadeirydd y Cyngor.
4. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Archwilio a Risg.
5. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Tâl.
6. Yn cynnwys £2,500 am gadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

## Treuliau aelodau'r Cyngor: Ebrill 2020 i Fawrth 2021

Gan fod aelodau'r Cyngor wedi gweithio gartref yn ystod y flwyddyn hon, ni wnaethant hawlio unrhyw dreuliau.

## Pwyllgorau anstatudol

Mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid cael cyn lleied â phosibl o bwyllgorau anstatudol er mwyn helpu i gyfyngu ar fiwrocratiaeth a sicrhau bod cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae gan y CFfC bedwar pwyllgor anstatudol: archwilio a risg, tâl, sicrwydd a phenodiadau, a chyllid a chynllunio. Adolygir aelodaeth pwyllgorau anstatudol y Cyngor bob deuddeg mis drwy broses y cytunwyd arni.

### Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Cyngor drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y CFfC. Mae hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli. Mae hyn yn cynnwys cynghori'r Cyngor ar y sicrwydd a geir mewn perthynas â risg a rheolaethau mewnol.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod o'r Cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Neil Buckley. Dechreuodd cyfnod Neil ar 1 Ebrill 2021.

Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, Helen Dearden. Dechreuodd Helen ar y gwaith ar 1 Ebrill 2017 a pharhaodd i wasanaethu fel aelod annibynnol drwy gydol 2020/21, ar ôl cael ei hail-benodi i'r pwyllgor ar 1 Ebrill 2020.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod y flwyddyn: ym Mehefin, Hydref a Rhagfyr 2021, ac yn Chwefror 2021.

Mae'r pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r Cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Cyllid a Chynllunio

Sefydlwyd y Pwyllgor Cyllid a Chynllunio gan y Cyngor ym mis Ebrill 2019 i ddisodli'r Grŵp Sicrwydd Ymgynghorol Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd (GSYEE), a oedd wedi bod ar waith ers 2015. Mae'r pwyllgor yn parhau â gwaith y GSYEE yn bwrw trosolwg dros gynllunio strategol ac ariannol, ond mae hefyd yn cynorthwyo’r Cyngor drwy oruchwylio a monitro datblygiad a gweithrediad strategaeth a pholisi buddsoddi'r CFfC.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum aelod o'r Cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Mark Hammond, oedd yn gadeirydd gynt ar y GSYEE.

Mae gan y pwyllgor hefyd aelod annibynnol, Andrew McLaren. Ymgymerodd Andrew â'r penodiad ar 1 Medi 2019, i gefnogi rôl fuddsoddi ychwanegol newydd y pwyllgor, a pharhaodd yn y rôl eleni.

Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn: yn Ebrill, Mai, Medi, Tachwedd a Rhagfyr 2020, ac yn Ionawr 2021.

Mae'r pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r Cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Tâl

Mae gan y Pwyllgor Tâl y pŵer, a ddirprwyir gan Gyngor Llywodraethu'r CFfC, i gymeradwyo neu wrthod y fframwaith cyflog ar gyfer cyflogeion y CFfC a'r pecynnau ar gyfer y Prif Weithredwr a’r cyfarwyddwyr. Mae'r pwyllgor yn cynghori'r Cyngor ar y polisi tâl (cyflog) ar gyfer aelodau'r cyngor ac ar y polisi treuliau ar gyfer aelodau’r cyngor a staff. Mae hefyd yn gosod y polisi tâl a

threuliau ar gyfer partneriaid cyswllt, ac mae'n monitro ein gwaith ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ein harolygon diwylliant a staff.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod o'r cyngor, gan gynnwys cadeirydd y pwyllgor, Elizabeth Mailey, a ddaeth i'r gadair ar 1 Ebrill 2019. Mae gan y pwyllgor ddau aelod annibynnol hefyd, Rob Goward a Janet Rubin, yr ymunodd y ddau ohonynt â'r pwyllgor ar 1 Hydref 2016 ac fe'u hailbenodwyd ar 1 Hydref 2020.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn: yn Ebrill, Mai a Medi 2020 ac yn Chwefror 2021. Yn dilyn trafodaeth ym mis Medi 2020, argymhellodd y Pwyllgor na ddylid codi'r cyfraddau tâl ar gyfer cadeirydd ac aelodau'r Cyngor. Argymhellodd hefyd y dylai'r taliadau disgresiwn ar gyfer aelodau'r cyngor oedd yn cadeirio'r pwyllgorau anstatudol aros fel yr oeddent. Cytunodd y Cyngor ar yr argymhellion hyn ym mis Rhagfyr 2020.

Mae'r pwyllgor yn adrodd unwaith y flwyddyn i'r Cyngor a gallwch weld yr adroddiadau hyn ar wefan y CFfC.

### Pwyllgor Sicrwydd a Phenodiadau

Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am recriwtio a phenodi aelodau’r pwyllgorau statudol. Mae hefyd yn goruchwylio trefniadau ynghylch eu hyfforddiant ac ar gyfer adolygu eu perfformiad. Mae'r pwyllgor yn adrodd i'r Cyngor, ond nid oes aelodau o'r cyngor yn gwasanaethu ar y pwyllgor. Mae ganddo hefyd gadeirydd annibynnol, sef Elisabeth Davies. Mae hyn yn rhan bwysig o’r ymdrech i sicrhau bod tasgau'n cael eu gwahanu'n briodol rhwng y Cyngor a'r pwyllgorau statudol.

## Prif weithredwr a chofrestrydd a chyfarwyddwyr

### Uwch grŵp arwain

Mae staff y CFfC yn cael eu harwain gan y prif weithredwr a chofrestrydd. Mae pob uwch arweinydd a chyfarwyddwr yn ymwneud ag agweddau ar strategaeth, gweithrediadau polisi a datblygiad rheoleiddiol. Mae hyn yn cryfhau gweithio integredig ac yn gwella ein heffeithiolrwydd rheoleiddiol.

Roedd pum cyfarwyddwr tan fis Hydref 2020, yn arwain timau’r sefydliad fel a ganlyn:

- Addysg a Safonau, dan arweiniad Mark Voce
- Addasrwydd i Ymarfer, dan arweiniad Carole Auchterlonie
- Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu, dan arweiniad Claire Bryce-Smith
- Pobl, dan arweiniad Francesca Okosi, a
- Chyllid, dan arweiniad Jonathan Bennetts

Aildrefnwyd y Gyfarwyddiaeth Pobl ar ôl i Francesca Okosi adael y CFfC ym mis Hydref 2020 a chafodd swydd Cyfarwyddwr Pobl ei dileu.

### Uwch grŵp arwain

Sefydlwyd y grŵp arwain uwch gan y prif weithredwr a chofrestrydd fel ffordd o gyflawni nifer o gyfrifoldebau llywodraethu gweithredol allweddol. Mae'r uwch grŵp arwain yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd, y cyfarwyddwyr, a'r pennaeth staff, Laura McClintock. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am ein strwythur ar ein gwefan.

### Gofynion cyfrifyddu

Mae'r CFfC yn gorff statudol annibynnol, sy'n atebol i'r Senedd a Senedd yr Alban. Rhaid i'r CFfC, o dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, baratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Rhaid i ni baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu'r DU a'r gofynion datgelu a ragnodir yn yr Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (GAAP). Rhaid paratoi'r cyfrifon fel eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r sefydliad, ac o'i incwm, ei wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

### Nifer a mathau o gwynion

Cawsom 38 o gwynion am ein gwasanaethau yn 2020/21, gostyngiad sylweddol o 82 yn 2019/20 ac 80 yn 2018/19. Roedd rhai cwynion yn ymwneud â mwy nag un mater, felly rydym wedi'u nodi yn y tabl yn unol â phrif thema'r gŵyn. Eleni, gwnaethom symleiddio'r ffordd rydym yn categoreiddio cwynion. Rhoddir gwybodaeth fanwl am gwynion i'r Cyngor drwy fonitro perfformiad yn rheolaidd.

## Cwynion a dderbyniwyd yn 2020/21

**Tabl2: Cwynion a dderbyniwyd yn 202/21**

| Mater | Cyfanswm 2020/21 |
|---|---|
| Ymddygiad | 2 |
| Defnyddio data a gwybodaeth | 3 |
| Prosesau a gweithdrefnau'r CFfC | 14 |
| Canlyniad penderfyniad | 15 |
| Arall | 4 |
| **Cyfanswm** | **38** |

## Sut rydym yn bodloni deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (RhG), gall unrhyw un ofyn i weld cofnodion y CFfC. Gallwch **ddysgu sut i wneud hyn ar ein gwefan**.

Mae ein cynllun cyhoeddi yn dilyn y 'cynllun cyhoeddi model', a ddiwygiwyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn 2014 ar gyfer pob rheolydd iechyd. Mae hyn yn ein hymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth fel mater o drefn.

Fel rheolwr data cofrestredig o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD), rydym yn casglu, storio a defnyddio data personol. Rydym yn defnyddio'r data hwn i, er enghraifft, ddiweddaru'r gofrestr, delio â phryderon, casglu ystadegau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y CFfC i'n rhanddeiliaid. Rydym yn rhannu data personol â sefydliadau eraill er budd y cyhoedd ac er mwyn cefnogi ein rôl a'n cyfrifoldebau statudol. Gallwch ddarllen mwy am **y ffordd y defnyddiwn ac y diogelwn ddata personol a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw** ar ein gwefan.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethon ni barhau i ddiweddaru ein polisïau a'n harferion gwaith er mwyn cadw at ddeddfwriaeth diogelu data. Cafodd ein gweithwyr a'n gweithwyr cysylltiol hyfforddiant blynyddol ar ddiogelu data a diogelwch gwybodaeth.

Adroddwyd chwe achos ynghylch data personol gennym i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Ni weithredwyd unrhyw gamau gan y Comisiynydd yn unrhyw un o'r achosion hyn, ond rydyn ni wedi rhoi camau ar

waith i wella ein prosesau fel na fydd digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Yn 2020/21, cawsom 182 o geisiadau am wybodaeth o dan y Deddfau Rhyddid Gwybodaeth

a'r Deddfau Diogelu Data (cawsom 241 yn 2019/20). Ymatebom i bob cais ar wahân i bump o fewn terfynau amser statudol. Roedd yr oedi am resymau'n ymwneud â'r pandemig. Cawsom hefyd 13 o geisiadau'n ymwneud â hawliau eraill gwrthrychau data o dan y gyfraith diogelu data, gan gynnwys ceisiadau am ddileu (cawsom dri yn 2019/20).

**Tabl 3: Nifer a math y ceisiadau am wybodaeth**

| Math o gais am wybodaeth | Nifer yn 2020/21 |
|---|---|
| RhG | 115 |
| DDD* | 34 |
| Mynediad gwrthrych ** | 33 |


* Achosion DDD yw'r rhai pan fydd sefydliad trydydd parti yn gwneud cais am ddata personol unigolyn a ninnau'n ystyried datgelu o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data.

* * Ceisiadau gwrthrych am wybodaeth yw pan fo person yn gofyn i ni ddatgelu iddo/iddi y wybodaeth sydd gennym amdano/amdani Ein nod yw bod mor dryloyw â phosibl yn yr achosion hyn, ond efallai na fyddwn yn gallu darparu'r holl wybodaeth y gofynnant amdani. Er enghraifft, efallai y byddwn yn 'golygu' (golygu neu ddileu) gwybodaeth sy'n cynnwys data personol pobl eraill.

Mewn 22 o achosion, nid oedd gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Caewyd deg achos oherwydd bod y sawl oedd yn ceisio'r wybodaeth naill ai wedi tynnu'r cais yn ôl neu heb ymateb i'n cais am brawf adnabod neu eglurhad arall. Pan oedd y wybodaeth gennym, fe'i datgelwyd gennym, naill ai'n llawn neu'n rhannol, yn 91% o'n hymatebion i geisiadau. Yn y rhan fwyaf o achosion lle na ddatgelwyd gwybodaeth, roedd yn ymwneud â data personol pobl eraill.

Cawsom dri chais i adolygu penderfyniad roeddem wedi'i wneud ynghylch datgelu ac mewn un achos gwnaethon ni wrthdroi ein penderfyniad gwreiddiol a rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Asesodd **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** un gŵyn am ein hymateb i gais a wnaed ym mis Ionawr 2020. Ni chymerodd y Comisiynydd unrhyw gamau pellach.

### Cyfraddau datgelu 2020/21




## Datgeliadau Chwythu'r Chwiban i ni fel 'person rhagnodedig'

Creodd y Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i 'bersonau rhagnodedig' gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ddatgeliadau wedi'u diogelu ('chwythu'r chwiban') a wneir iddynt gan weithwyr. Nod y ddyletswydd hon yw cynyddu tryloywder yn y ffordd yr ymdrinnir â'r datgeliadau hyn a chynyddu hyder ymhlith pobl sy'n mynegi pryder bod eu datgeliadau'n cael eu trin o ddifri'.

Fel person rhagnodedig, mae'n rhaid i ni adrodd yn ysgrifenedig bob blwyddyn ar ddatgeliadau wedi'u diogelu a wneir i ni. Dyma'r adroddiad ar gyfer y cyfnod yn dechrau ar 1 Ebrill 2020 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021.

Ein rôl fel person rhagnodedig yw rhoi lle i weithwyr wneud eu datgeliad i gorff annibynnol pan:

- fo'r gweithiwr yn teimlo na all wneud datgeliad yn uniongyrchol i'w gyflogwr, ac
- y gallem fod mewn sefyllfa i roi camau rheoleiddio ar waith ar y datgeliad

Os na allwn rhoi camau rheoleiddio ar waith am fod y datgeliad y tu hwnt i'n cwmpas, byddwn yn cyfeirio'r datgeliad at sefydliad priodol.

Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 cawsom bump datgeliad cymwys o wybodaeth.

O'r rhain, daethom â'n hymholiadau i ben ar dri gyda dau arall yn dal i gael eu hadolygu. Daethom â thri datgeliad cymwys a godwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol i ben hefyd.

Roedd y camau a roddwyd ar waith gennym yn cynnwys ymchwiliad llawn drwy brosesau addasrwydd sefydledig a gweithredu dilynol drwy ein rhwydwaith arolygu. Gall y cyntaf arwain at unrhyw ganlyniad sydd ar gael o dan y broses addasrwydd i ymarfer. Gall yr olaf gynnwys canllawiau, ymweliad dilynol neu arolygiad heb rybudd.

Ymchwiliwyd i dri o bryderon eraill a chaewyd dau heb unrhyw gamau pellach. Daeth yr achos arall i ben gyda chanllawiau gan gydweithwyr addysg.

O'r tri phryder o'r cyfnod adrodd blaenorol, daeth un i ben gyda chanllawiau gan gydweithwyr addasrwydd i ymarfer a daeth dau i ben heb unrhyw gamau pellach. Mae’r ymchwilio’n parhau i un pryder pellach o'r cyfnod adrodd blaenorol.

Ni chafodd yr un o'r datgeliadau effaith ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau a chyflawni ein hamcanion. Nodir y rhain yn yr adran 'Amdanom ni' ar ddechrau'r adroddiad hwn.

Rydym wedi nodi bod nifer y datgeliadau cymwys o wybodaeth a gawsom yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn is na'r llynedd (o 22 i lawr i 5). Nid ydym wedi gallu adnabod rheswm penodol dros hyn na sefydlu a yw'n gysylltiedig â'r pandemig.

# Datganiad llywodraethu 2020/21

## Cwmpas ein cyfrifoldeb

Fel prif weithredwr a chofrestrydd, rwy'n atebol i'r Cyngor am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi strategaeth ac amcanion y Cyngor, tra'n diogelu asedau'r CFfC. Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod busnes y CFfC yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rwyf yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu materion y CFfC ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

## Diben y fframwaith llywodraethu

Mae llywodraethu'n ymwneud â'r CFfC yn sicrhau ei fod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, ar gyfer y bobl gywir, ac mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys:

- y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r CFfC, a
- gweithgareddau'r CFfC, yn ymgysylltu ag aelodau cofrestredig, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill
- Mae'r fframwaith yn caniatáu i'r CFfC fonitro a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni ac ystyried a wnaed hynny mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae'r system reoli fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw a chafodd ei chreu i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, dim ond rhoi sicrwydd rhesymol (nid absoliwt) o effeithiolrwydd y gall ei roi. Seilir y system reoli fewnol ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau, i werthuso'r tebygolrwydd o weld gwireddu'r risgiau a'r effaith bosibl pe byddai hynny'n digwydd, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Ar wahân i'r newidiadau i'r uwch grŵp arwain, fel y disgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r fframwaith llywodraethu wedi bod ar waith ar y CFfC am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiad cyfrifon.

## Y fframwaith llywodraethu

Ar ddiwedd 2019, cytunwyd ar weledigaeth ddeng mlynedd ar gyfer 'gofal fferylliaeth diogel ac effeithiol wrth wraidd cymunedau iachach', yn ogystal â dau gynllun strategol pum mlynedd, ynghyd â strategaethau ategol a chynlluniau busnes. Drwy gydol 2020/21, mae pandemig COVID-19 wedi peri i ni ystyried am y cynlluniau hyn yn ofalus. Rydym wedi gorfod ailflaenoriaethu agweddau ar y cynlluniau, ond rydym hefyd wedi gallu cyflwyno nifer o eitemau a glustnodwyd gynt at yn ddiweddarach yn y strategaeth. Fodd bynnag, mae'r fframwaith wedi aros yr un fath.

Mae ein cynllun busnes, a'r ymarfer a gynhaliwyd gennym i ailflaenoriaethu ein cynlluniau, wedi rhoi ffocws a dealltwriaeth glir i'n huwch arweinwyr a'n staff mewn cyfnod a fu fel arall yn un llawn ansicrwydd. Mae gennym y

fframwaith a sefydlwyd gennym o hyd i fonitro'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni ein blaenoriaethau, er mwyn i ni allu asesu ein cynnydd a'n perfformiad wrth weithredu'r cynllun strategol. Yn eu tro, caiff ffrydiau allweddol o waith eu hategu gan gynlluniau project manylach, sydd hefyd yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd.

Gallwch ddarllen rhagor o wybodaeth am y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys strwythur cyfundrefnol a gweithrediadau ein pwyllgorau, yn adran *Pwyllgorau'r CFfC* yr adroddiad blynyddol hwn.

## Adolygu effeithiolrwydd

Fel y prif weithredwr a chofrestrydd, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r CFfC, gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Cefnogir yr adolygiad effeithiolrwydd gan:

- waith rheolwyr gweithredol y CFfC, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu
- adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, a
- sylwadau gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill

Penododd y Cyngor TIAA yn archwilwyr mewnol i'r CFfC ym mis Mehefin 2019. Penodwyd yr archwilwyr allanol presennol, Crowe, Clark and Whitehill gan y Cyngor ar 12 Hydref 2017, yn dilyn argymhelliad panel tendro'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Er i gynllun archwilio mewnol tair blynedd ar gyfer 2020–22 gael ei gytuno, diweddarwyd y cynllun ar gyfer 2021/22 ym mis Mawrth 2021 i sicrhau bod cynlluniau archwilio nawr ac yn y dyfodol yn dal yn berthnasol ac yn gyfredol. Er mwyn sicrhau bod cwmpas yr adolygiad effeithiolrwydd yn ddigon eang, aseswyd digonolrwydd ac effeithiolrwydd y system reoli fewnol mewn perthynas â phrif feysydd cyflenwi gwasanaethau, y systemau rheoli sy'n ein galluogi i'w cyflenwi, a'n prosesau craidd.

Rydym wedi parhau i weithio gydag archwilio mewnol i sicrhau bod ein system reoli fewnol yn addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

Cynhaliwyd cyfanswm o 8 o aseiniadau gan ein harchwilwyr mewnol a'u hadolygwyd nhw gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, ac roedd un ohonynt yn gweithredu ymhellach ar argymhellion blaenorol: Y saith adroddiad arall a'r sgoriau a roddwyd oedd:

- Cynllun gweithredu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP) - Sylweddol
- Rheoli’r fflyd cerbydau – Cyfyngedig
- Methodoleg achredu – Sylweddol
- Cyllid craidd – Sylweddol
- Uniondeb y Gofrestr – Sylweddol
- Cynllunio olyniaeth Adnoddau Dynol – Sylweddol
- Gwrandawiadau – Sylweddol

## Esboniad o'r sgoriau

**Sicrwydd Sylweddol:** Mae system gadarn o reolaethau mewnol ar waith yn effeithiol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac amcanion y broses yn cael eu cyflawni.

**Sicrwydd Rhesymol**: Yn gyffredinol, mae system ddigonol o reolaethau mewnol ar waith yn effeithiol ond mae angen rhai gwelliannau i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, ac amcanion prosesau’n cael eu cyflawni.

**Sicrwydd Cyfyngedig:** Mae'r system reoli fewnol yn gyffredinol annigonol neu'n cael eu gweithredu'n aneffeithiol ac mae angen gwelliannau sylweddol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli, ac amcanion prosesau'n cael eu cyflawni.

**Dim Sicrwydd**: Mae diffyg sylfaenol o ran rheolaethau mewnol craidd, neu maen nhw wedi dirywio'n llwyr, a hyn yn gofyn am weithredu ar unwaith.

**Melyn:** mae gwendidau wedi eu nodi yn y fframwaith rheoli neu mae diffyg cydymffurfiaeth, ac mae hyn yn rhoi'r broses o gyflawni amcanion y system mewn perygl. Bydd angen rhoi rhai camau adfer ar waith.

**Cynghorol:** nid oes gan yr adroddiadau hyn sgôr sicrwydd ffurfiol gan eu bod yn adolygiad ar feysydd gwaith sy'n barhaus a heb fod wedi eu cwblhau.

Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad ar effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ac fe'm cynghorwyd bod y trefniadau'n gyffredinol yn parhau i gael eu hystyried yn addas at eu diben o fewn ein fframwaith llywodraethu.

Wrth wneud y datganiad hwn, rwyf wedi nodi'r farn archwilio mewnol bod gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.

Er mai barn yr archwilwyr mewnol yn gyffredinol yw y gellir rhoi sicrwydd rhesymol, mae'r farn archwilio mewnol hefyd yn amlygu bod "rhywfaint o wendid yn nyluniad y rheolaethau, a/neu anghysondeb yn y ffordd y cânt eu gweithredu, a gallai hyn beryglu cyflawni amcanion penodol".

Gwn fod rhywfaint o risg na fydd ein hamcanion yn cael eu cyflawni'n llawn mewn rhai ffyrdd a bod angen gwelliannau i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.

Isod, ceir amlinelliad o'r meysydd yr ydyn ni eisoes wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol gyda chamau gweithredu newydd neu ychwanegol.

## Materion llywodraethu sylweddol

**Mater llywodraethu: gwella'r ffordd y rheolir ein fflyd cerbydau**

**Cam gweithredu lliniaru/arfaethedig**: Rydym yn adolygu ein dull o sicrhau bod y staff sydd angen cerbyd yn gallu defnyddio un addas at y diben. Nodwyd gennym yn rhan o'r archwiliad ein bod yn dibynnu'n ormodol ar un aelod o staff i drefnu ein fflyd cerbydau a sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli risgiau cysylltiedig. Mae'r canfyddiadau wedi rhoi rheswm pellach i ni werthuso meysydd lle gallai fod gennym un pwynt methiant.

**Mater llywodraethu: oedi mewn achosion addasrwydd i ymarfer**

**Cam gweithredu lliniaru/arfaethedig**: Sylweddolom yn ystod adolygiad rheolaidd o'n risgiau gweithredol, bod y risg o oedi mewn achosion addasrwydd i ymarfer wedi cynyddu i lefel nad oeddem yn barod i'w derbyn. Mae cynllun wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno i'r Cyngor ar sut rydym yn cynnig rheoli'r risg hon, gyda phwyslais arbennig ar dargedu achosion hŷn. Byddwn yn parhau i fonitro'r mater penodol hwn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am effeithiolrwydd ein camau lliniaru.

**Mater llywodraethu: prosesau â llaw**

**Cam gweithredu lliniaru/arfaethedig**: Roedd hyn yn dilyn ymchwiliad i ddigwyddiad difrifol

pan ddaeth cofrestriad safle fferyllol i ben pan na ddylai hynny fod wedi digwydd. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'n prosesau, gyda phwyslais arbennig ar feysydd lle rydym yn dibynnu ar reolaethau â llaw a sut y gallem elwa o ddefnyddio mwy o reolaethau awtomataidd. Byddwn yn gweithio i ddatblygu cynllun yn 2021/22 i ymdrin â'r maes hwn o bryder, gyda chyngor gan ein tîm archwilio mewnol i sicrhau tryloywder a thrylwyredd yn ein dull gweithredu.

## Cyrraedd Safonau Rheoleiddio Da’r Awdurdod Safonau proffesiynol (ASP)

Yn ogystal â'n system reoli fewnol, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn craffu ar ein perfformiad yn erbyn ei Safonau Rheoleiddio Da bob blwyddyn. Canfu'r ASP fod y CFfC yn cyrraedd 15 o’r 18 o'Safonau Rheoleiddio Da yn 2019/20, gan gynnwys pob un o'r pump safon gyffredinol newydd a'r rhai'n ymwneud â chanllawiau a safonau, addysg a hyfforddiant a chofrestru. Roedd y tair safon nas cyrhaeddwyd yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer.

Roedd yr adroddiad yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i’r afael â'r pryderon yn asesiad 2018/19 a sut mae nifer o gamau cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith mewn nifer o feysydd addasrwydd i ymarfer. Nododd, fodd bynnag, oherwydd amseriad y camau yn ein cynllun gweithredu a'r cyfnod a gwmpesir gan adroddiad 2019/20, mai effaith gyfyngedig a gafodd hyn ar berfformiad cyffredinol yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Mawrth 2019 a 28 Chwefror 2020, felly nid yw'n rhoi sylwadau ar ein hymateb rheoleiddiol i bandemig COVID-19.

Rydym wedi gwneud ymdrechion sylweddol i ymateb yn gadarnhaol i'r adborth gan yr ASP. Rydym wedi adolygu ein cynnydd yn rheolaidd yn erbyn ein cynllun gweithredu, wedi adrodd ar hyn ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a chomisiynu adroddiad archwilio mewnol yn 2020/21.

## Crynodeb

Rwyf yn cynnig parhau i roi camau ar waith dros y flwyddyn nesaf i fynd i’r afael â’r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rwyf yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i’r afael â’r angen i wneud gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad effeithiolrwydd a byddaf yn monitro’u gweithrediad yn fy adolygiad blynyddol nesaf.

**Duncan Rudkin**
**Prif Weithredwr**
**10 Mehefin 2021**

# Datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

## Adolygiad ar weithgareddau busnes

Dechreuom flwyddyn 2020/21 yn rhoi mwy o bwyslais ar ymateb yn effeithiol i'r pwysau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Galluogodd hyn ni i sicrhau y gallem addasu ein dull gweithredu ac ymateb yn hyblyg i heriau'r flwyddyn, tra'n parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio.

## Incwm

Daw incwm yn bennaf o ffioedd adnewyddu a delir gan fferyllwyr, technegwyr fferyllfa a lleoliadau fferyllol, a gydnabyddir yn y cyfrifon gydol y flwyddyn gofrestru yn unol â'r egwyddorion cyfrifyddu. Felly, nid yw'r arian gwirioneddol a gafwyd am y flwyddyn yn adlewyrchu'r incwm a gydnabyddir gan ffioedd adnewyddu'r flwyddyn ariannol.

## Prif ffynonellau incwm

| Grŵp aelodau cofrestredig | Incwm 2020/21(£m) | Rhifau aelodau 2020/21 | Incwm 2019/20 (£m) | Nifer aelodau 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Fferyllwyr** | 15.1 | 56,851 | 15.1 | 57,651 |
| **Technegwyr fferyllol** | 3.1 | 24,439 | 3.0 | 23,705 |
| **Fferyllfeydd cofrestredig** | 3.8 | 13,977 | 3.7 | 14,181 |

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys ffioedd adnewyddu blynyddol, ffioedd cofrestru cychwynnol a ffioedd ymgeisio.


Cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £23.1m (2019/20: £23.2m), gostyngiad o 0.4% o'r flwyddyn flaenorol. Arhosodd incwm ar draws yr holl grwpiau aelodau cofrestredig yn weddol gyson o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda newidiadau i'r niferoedd cyffredinol yn cael eu gwrthbwyso gan effaith cynnydd 2019 mewn ffioedd. Fodd bynnag, bu gostyngiad amlwg yng nghyfanswm nifer y fferyllwyr cofrestredig gyda gostyngiad bach yn y nifer arferol sy'n gadael yn ystod blwyddyn, ond gostyngiad sylweddol yn nifer y fferyllwyr newydd a ymunodd â'r gofrestr. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr oedi i'r asesiad cofrestru.

Roedd incwm cyn-gofrestru, sy'n cynnwys ffioedd asesu cofrestru a cheisiadau cyn-gofrestru, yn £0.9m am y flwyddyn (2019/20: £1.1m). Safodd 2,670 o fyfyrwyr yr arholiad ym mis Mawrth 2021

(2019/20: 4,016), gostyngiad o 33.5% o'r flwyddyn flaenorol. Oherwydd heriau'r pandemig a symud yr asesiad i blatfform ar-lein, dim ond un sesiwn arholi a fu, tra bu dwy sesiwn y flwyddyn gynt.

I gefnogi anghenion gofal iechyd y cyhoedd yn ystod y pandemig, ni chodwyd unrhyw ffioedd ar y fferyllwyr a'r technegwyr fferyllol a roddwyd ar y gofrestr dros dro na'r hyfforddeion a ymunodd â'r ddarpar gofrestr.

## Gwariant Gwirioneddol 2020/21




## Gwariant

Yn ystod y flwyddyn bu'n rhaid i ni newid y ffordd roeddem yn gweithio ar nifer o wahanol ffrydiau gwaith yn gyflym, er mwyn sicrhau bod ein hymrwymiadau statudol yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod o ansicrwydd. Dechreuwyd hefyd weithredu mentrau fel y'u nodir yng Ngweledigaeth 2030 a'n cynllun strategol ar gyfer 2020-25. Mae datblygiadau allweddol yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys: 1) Cyflwyno safonau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr 2)

Ymgynghori ar ein strategaeth newydd ar gyfer rheoli pryderon am weithwyr fferyllol proffesiynol 3) Cyflwyno gwelliannau yn y ffordd rydym yn gweithio.

Roedd gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol yn £22.9m (2019/20: £23.1m), gostyngiad o 0.9% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm costau cyflogeion oedd £13.0m (2019/20: £12.7m), cynnydd o 2.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Un o'r prif ffactorau o ran y cynnydd oedd nifer uwch o staff yn methu defnyddio eu gwyliau blynyddol yn llawn yn ystod y flwyddyn. Costau eraill cyflogeion oedd £1.9m (2019/20: £2.4m). Mae'r dylanwadau a gyfrannodd yn cynnwys nifer is o ymweliadau achredu, digwyddiadau hyfforddi partneriaid cyswllt a gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer. Symudwyd llawer o'r rhain i gael eu cyflawni'n rhithiol, gan greu arbedion o ran costau llety a theithio.

Roedd gwariant ar ffioedd proffesiynol yn £1.2m ar gyfer y flwyddyn (2019/20: £1.0m). Cafodd y cynnydd o 20% ei yrru gan gostau symud asesiadau cofrestru o fod yn rhai papur i fod yn rhai ar-lein. Mae hyn wedi'i liniaru gan ostyngiad o £0.2m yng nghostau lleoliadau arholi.

Roedd costau cyfreithiol yn £0.9m am y flwyddyn (2019/20: £0.5m). Roedd cyllideb 2020/21 yn rhagweld cynnydd mewn costau yn y maes hwn, ond oherwydd yr heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig gwelwyd cynnydd yn lefel y cymorth cyfreithiol a'r cyngor arbenigol allanol oedd ei angen i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt o fewn yr amserlenni priodol.

Cyfanswm costau meddiannaeth oedd £2.3m (2019/20: £2.1m), cynnydd o 9.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cyfran fawr o'r cynnydd wedi ei yrru gan yr adolygiad diweddar o'r ddarpariaeth dadfeilio a ddiweddarodd y costau ar sail mynegeion prisiau mwy diweddar. Gwrthbwyswyd swm bach o hyn gan y gostyngiadau mewn taliadau gwasanaeth ac yswiriant adeilad ar gyfer y flwyddyn, yn sgil yr adolygiad o daliadau yn y flwyddyn flaenorol.

## Buddsoddiadau

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21, blwyddyn gyntaf y sefydliad yn cynnal portffolio wedi'i reoli, roedd gwerth buddsoddiadau wedi cynyddu gan £0.74m (yn net o gostau) yn dilyn y buddsoddiad graddol o £15.0m a wnaed yn ystod cyfnod yr ail chwarter. Mae hyn wedi arwain at gyfradd enillion o 5.0% ar gyfer y cyfnod o'i gymharu â chyfradd darged o 2.0-3.0%. Roedd y symudiad ffafriol yn deillio'n bennaf o berfformiad ecwitïau a oedd, ar ddiwedd y flwyddyn, yn cynrychioli 36.3% o gyfanswm y portffolio. Rhoddodd ffactorau fel cyflwyno brechlyn COVID a chanlyniadau etholiadau'r UD hwb i'r marchnadoedd ariannol gan helpu i gynyddu gwerth y portffolio.

## Gwarged/diffyg am y flwyddyn

Yn gyffredinol, mae'r canlyniad gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn warged o £0.9m (2019/20: £0.3m). Mae £0.5m o'r cynnydd yn deillio o symudiad ffafriol y portffolio buddsoddi (yn net o dreth) o ganlyniad i'r newid yn ein strategaeth fuddsoddi. Y gwarged ar weithgareddau arferol

oedd £0.4m, sy'n deillio mwy o ostyngiad i ostyngiad mewn gwariant na chynnydd mewn incwm. Disgwyliad y gyllideb oedd sefyllfa cost niwtral, disgwyliad a gymeradwywyd gan y Cyngor.

## COVID-19

Creodd y pandemig parhaus amgylchedd heriol i weithio ynddo, gan golygu y bu’n rhaid i ni wneud newidiadau er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio.

O ganlyniad, cafwyd costau, nad oedden nhw wedi eu cynllunio, o £0.2m am y flwyddyn. Darparom yr offer oedd eu hangen i sicrhau bod y staff yn gallu gweithio gartref yn effeithiol. Lle nad oedd modd cyflawni tasgau o bell, gwnaethom sicrhau y gallai'r rhai yr effeithiwyd ar eu dyletswyddau gyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd mor ddiogel â phosibl.

Cynhaliwyd llawer o'n swyddogaethau statudol o bell am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan greu £0.3m o arbedion i ni, yn enwedig o ran llety a theithio.

Yn y dyfodol, rydym yn benderfynol o barhau i ddefnyddio'r dulliau presennol o weithio lle y bo'n bosibl i adeiladu ar arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd ein gwaith.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor dros baratoi datganiadau ariannol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, rhaid i aelodau'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfrin Gyngor wedi cyfarwyddo'r CFfC i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safon Gyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfreithiau cymwys) gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa a gwarged neu ddiffyg y CFfC am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i aelodau'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol a chall
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, datgelu ac a egluro unrhyw wyriadau materol oddi wrth y rhain yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail 'busnes gweithredol' oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y CFfC yn parhau â'i weithgareddau

Aelodau'r Cyngor sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol. Rhaid i'r rhain fod yn ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y CFfC, a datgelu gyda chywirdeb rhesymol – ar unrhyw adeg – sefyllfa ariannol y CFfC. Mae'n rhaid iddynt alluogi'r Cyngor i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cadw at Orchymyn Fferylliaeth 2010. Mae aelodau'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r CFfC ac felly am roi camau rhesymol ar waith i atal a chanfod twyll ac anghysonderau arall.

Drwy orchymyn y Cyngor

**Nigel Clarke**
**Cadeirydd**
**10 Mehefin 2020**

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i aelodau cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 sy'n cynnwys datganiad incwm cynhwysfawr, datganiad sefyllfa ariannol, y fantolen, datganiad llifoedd arian, datganiad newidiadau mewn cronfeydd a nodiadau i'r datganiadau ariannol, yn cynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol fel ar 31 Mawrth 2021 ac o'i incwm a gwariant, am y flwyddyn ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu sy'n Gyffredinol Dderbyniol yn y Deyrnas Unedig.

## Y sail i'r farn

Gwnaethom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (DU) (SRAau) (DU)) a deddfwriaeth berthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dan y safonau hynny yn adran *Cyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol* ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad i ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Moeseg y Cyngor Adrodd ar Gyllid, ac rydym wedi cyflawni'r gofynion moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi ei chasglu yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer creu sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol. rydym wedi casglu bod defnydd y Cyngor o gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau aelodau'r Cyngor mewn perthynas â phryderon parhaol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cyngor sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilio ni arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol

yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson gyda'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth sydd gennym drwy'r archwiliad neu'n ymddangos mewn ffordd arall ei bod wedi ei chamddatgan. Os byddwn yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i ni benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i ni adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r aelodau'r Cyngor

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau aelodau'r Cyngor yn adran *Ein dull llywodraethu*, aelodau'r cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y barna aelodau'r cyngor ei bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol i barhau fel busnes gweithredol, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol, a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol, oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddod â gweithrediadau i ben, neu fod dim dewis ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a ydy'r datganiadau ariannol fel cyfanwaith yn rhydd rhag camddatganiadau materol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylweddol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Nodir isod fanylion am y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities** Mae'r disgrifiad hwn yn llunio rhan o'n hadroddiad archwilio.

## Y graddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Gwnaethom nodi ac asesu'r risgiau o

gamddatgan y datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, boed hynny drwy dwyll neu drwy gamgymeriad, a thrafodwyd y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, gwnaethom gynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio digonol a phriodol at roi sail i’n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol y mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn gweithredu oddi mewn iddynt, a ffocysu ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n effeithio’n uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Aseswyd y cydymffurfiad gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn yn rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar eitemau'r datganiad ariannol cysylltiedig.

Yn ogystal, ystyriom ddarpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn effeithio’n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfio â nhw fod yn hanfodol i allu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol i weithredu neu osgoi cosb berthnasol. Ystyriom hefyd y cyfleoedd a'r cymhellion ar gyfer twyll a allai fodoli o fewn y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd:

- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Deddfau trethiant
- Deddfau cyflogaeth

Mae safonau archwilio yn cyfyngu’r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn at holi'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol eraill, os oes rhai.

Nodwyd gennym bod y risg fwyaf o effaith sylweddol afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, pan fo rheolwyr yn diystyru rheolaethau, gan gynnwys gwneud amcangyfrifon a phenderfyniadau wrth baratoi datganiadau ariannol. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys holi rheolwyr, archwilio mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg am eu dull eu hunain o nodi ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau wrth gofnodi, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae perygl anochel o beidio â darganfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chyflawni ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, y pellaf y mae diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a’r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig sy'n ofynnol gan safonau archwilio o’i nodi. Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o beidio â chanfod enghreifftiau o afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau’r Cyngor yn unig, fel corff, yn unol ag Atodlen 1 Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith archwilio er mwyn gallu dweud wrth aelodau’r Cyngor am y materion hynny sydd angen eu cynnwys mewn adroddiad archwilio ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau pennaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, ac aelodau’r Cyngor fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn sydd gennym.

Tim Redwood
Crowe U.K. LLP
Archwilydd Statudol

Llundain, 10 Mehefin 2021

## Datganiad incwm cynhwysfawr am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 2 | 23,135 | 23,187 |
| Gwariant | 3 | (22,942) | (23,116) |
| **Gwarged gweithredu** | | 193 | 71 |
| Incwm buddsoddi | 4 | 208 | 249 |
| **Gwarged ar weithgareddau cyffredin** | 5 | 401 | 320 |
| Enillion ar fuddsoddiadau | 9 | 628 | - |
| Trethiant | 6 | (143) | (47) |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | 886 | 273 |

## Datganiad ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021 £000 | 2021 £000 | 2020 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | 1,872 | | 2,508 |
| Asedau anniriaethol | 8 | | 369 | | 627 |
| Buddsoddiadau | 9 | | 15,743 | | 12,500 |
| | | | 17,984 | | 15,635 |
| **Asedau presennol** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 2,005 | | 1,882 | |
| Banc ac arian parod | 11 | 13,035 | | 13,569 | |
| | | 15,040 | | 15,451 | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | (17,433) | | (16,281) | |
| **Rhwymedigaethau presennol net** | | | (2,393) | | (830) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau presennol | | | 15,591 | | 14,805 |
| Credydwyr: symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 13 | | (1,506) | | (1,987) |
| Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 14 | | (1,793) | | (1,412) |
| **Asedau net** | | | 12,292 | | 11,406 |
| **Cronfeydd a ddefnyddiwyd** | | | | | |
| Gwarged cronedig | | | | | |
| - Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | | | 10,051 | | 8,271 |
| - Cronfa Asedau Sefydlog | | | 2,241 | | 3,135 |
| Cyfanswm cyllid a ddefnyddiwyd | | | 12,292 | | 11,406 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol, eu hawdurdodi i'w cyhoeddi a'u llofnodi ar ran y Cyngor gan Nigel Clarke, Cadeirydd, ar 10 Mehefin 2021.

# Datganiad llifoedd arian
# am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifiau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged am y flwyddyn ariannol | | 193 | 71 |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 3 | 1,046 | 1,060 |
| Rhyddhau cymhelliant prydlesu | 13 | (453) | (453) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer dadfeilio | 14 | 267 | - |
| Treth ohiriedig | 14 | 114 | - |
| Ffioedd rheoli portffolio buddsoddi | 9 | 37 | - |
| Difidendau a gwarantau llog sefydlog | 9 | (152) | - |
| Cynnydd mewn masnach a dyledwyr eraill | | (123) | (635) |
| Cynnydd mewn masnach a chredydwyr eraill | | 1,029 | 1,024 |
| **Arian net a ddarparwyd drwy weithgareddau gweithredu** | | **1,958** | **1,067** |
| Llifiau arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu buddsoddiadau | | (2,500) | - |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | 7 | (27) | (32) |
| Prynu asedau sefydlog anniriaethol | 8 | (125) | (285) |
| Incwm buddsoddi | 4 | 208 | 249 |
| Trethiant | | (48) | (40) |
| **Arian net (ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | **(2,492)** | **(108)** |
| **Newid mewn arian a chyfwerth ag arian y cyfnod adrodd** | | **(534)** | **959** |
| Arian a chyfwerth ag arian ar ddechrau'r cyfnod | | 13,569 | 12,610 |
| Arian a chywerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | **13,035** | **13,569** |
| | | **£000** | **£000** |
| Arian mewn llaw | | 249 | 748 |
| Adneuon â Rhybudd (llai na 3 mis) | | 12,786 | 12,821 |
| **Cyfanswm arian a chyfwerth ag arian** | | **13,035** | **13,569** |

## Datganiad newidiadau i gronfeydd am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

| | Nodyn | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol | Cronfa Asedau Sefydlog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** |
| Ar 1 Ebrill 2019 | | 7,255 | 3,878 | 11,133 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | 1,332 | (1,059) | 273 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (316) | 316 | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 | | 8,271 | 3,135 | 11,406 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | | 1,932 | (1,046) | 886 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (152) | 152 | - |
| Ar 31 Mawrth 2021 | | **10,051** | **2,241** | **12,292** |

Mae'r gronfa gronedig wedi cael ei rhannu'n Gronfa Gyffredinol a Chronfa Asedau Sefydlog. Mae'r gronfa asedau sefydlog yn cynrychioli asedau swyddogaethol sy'n cael eu defnyddio'n weithredol. Mae'r gronfa gyffredinol yn cynrychioli balans cronfeydd wrth gefn cronedig y CFfC.

# Nodiadau i'r datganiadau ariannol am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021

## 1.1. Polisïau cyfrifyddu

Sefydlwyd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) gan Orchymyn Fferylliaeth 2010 ac mae'n preswylio yn y Deyrnas Unedig. Y prif leoliad busnes yw 25 Canada Square, Canary Wharf, Llundain, E14 5LQ.

## 1.2. Fformat y cyfrifon

Mae'n ofynnol bod y CFfC yn paratoi cyfrifon blynyddol ar ffurf a bennir gan y Cyfrin Gyngor. Mae'n ofynnol i'r Cyfrin Gyngor osod y cyfrifon ardystiedig gerbron y ddau Dŷ Senedd a Senedd yr Alban. Diben statudol y CFfC yw diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â safonau cyfrifo perthnasol y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Cyllid 102 - 'Y Safon Adrodd berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon' ('SAA 102'). Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail costau hanesyddol.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021, effaith bosibl COVID-19, a rhagolygon a chyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y CFfC yn fusnes gweithredol ac felly mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar y sail honno.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling (£).

## 1.3. Amcangyfrifon cyfrifo a barn gritigol

Er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol yn unol ag SAA 102, rhaid i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wneud rhai amcangyfrifon a ffurfio barn gritigol sy'n cael effaith ar y polisïau a'r symiau a adroddir yn y cyfrifon blynyddol. Mae'r amcangyfrifon a'r barnau wedi eu seilio ar brofiadau hanesyddol a ffactorau eraill yn cynnwys disgwyliadau am ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol ar yr adeg y gwneir yr amcangyfrifon ac y ffurfir y farn dan sylw. Efallai y bydd yr hyn a fydd yn digwydd yn amrywio o'r amcangyfrifon.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sydd â'r risg bennaf o achosi addasiad materol i'r asedau a'r rhwymedigaethau wedi eu nodi isod:

### Dibrisiant ac amorteiddio

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn cyfrif am ddibrisiant ac amorteiddio yn unol â SAA 102. Mae'r gost dibrisiad ac amorteiddiad yn cydnabod dirywiad yng ngwerth yr ased a dyraniad o gost yr ased dros y cyfnod y defnyddir yr ased. Llunnir barn ar hyd bywyd defnyddiol yr asedau, ac fe'i hadolygir yn gyson er mwyn adlewyrchu amgylchedd newidiol.

### Dadfeiliad

Ar ôl cymryd cyngor proffesiynol, mae'r CFC wedi gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau. Mae'r rhwymedigaeth bosibl wedi codi o ganlyniad i ffitio'r swyddfa yn wreiddiol yn 2014. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mae'r GPhC wedi gwneud addasiad i'r ddarpariaeth i adlewyrchu prisiad wedi'i ddiweddaru a gynhaliwyd gan sefydliad annibynnol cymwys.

## 1.4. Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cynnwys eiddo prydles ac offer. Mae'r holl asedau yn y categorïau hyn sydd â gwerth o £1,000 neu fwy wedi'u cyfalafu (gan gynnwys cost gweithredu). Prisir asedau sefydlog ar gost llai dibrisiant. Cyfrifir dibrisiant ar sail llinell syth.

Dyma hyd bywyd economaidd defnyddiol yr asedau:

Gwelliannau prydles byr – cyfnod y brydles

Celfi swyddfa – pum mlynedd

Meddalwedd cyfrifiadurol – tair blynedd

Caledwedd cyfrifiadurol (heblaw am PCs a gliniaduron) – tair blynedd

PCs a gliniaduron – un flwyddyn i bedair blynedd

## 1.5. Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cynnwys meddalwedd a systemau cyfrifiadurol wedi eu datblygu'n fewnol. Mae pob ased yn y categori hwn sydd â gwerth £10,000 neu fwy wedi eu cyfalafu. Cyfrifir amorteiddiad ar sail llinell syth dros 3 blynedd.

## 1.6. Amhariad

Ar ddyddiad pob mantolen, mae'r CFfC yn adolygu symiau ei asedau i benderfynu a oes awgrym bod asedau wedi colli gwerth yn sgil niwed. Os oes awgrym o'r fath, mae swm adennill yr ased yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu maint y golled yn sgil niwed. Cofnodir colled yn sgil niwed yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn syth.

## 1.7. Gwariant

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol pan fo'r nwyddau wedi eu derbyn neu'r gwasanaeth wedi ei ddarparu. Mae TAW anadferadwy wedi'i gynnwys gyda'r eitem gwariant y mae'n perthyn iddo.

## 1.8. Incwm

Mae'r holl ffioedd gan gofrestryddion a lleoliadau wedi'u cydnabod yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn y cyfnod maent yn perthyn iddo sef y mis y rhoddir unigolyn ar y gofrestr. Mae incwm sydd i'w briodoli yn y dyfodol wedi'i gynnwys gyda chredydwyr o dan y categori incwm gohiriedig.

Cyflwynir incwm buddsoddi yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Mae incwm o warantau llog sefydlog yn cronni dros amser tra bo incwm difidend yn cael ei gydnabod pan gaiff y difidend ei ddatgan. Caiff llog ar fenthyciadau ac adneuon eu cronni fel y cânt eu hennill.

Cydnabyddir grantiau gan y llywodraeth ar sail y model cronedig ac fe'u cofnodir naill ai fel grant yn ymwneud â refeniw neu grant yn ymwneud ag asedau.

Dangosir pob incwm arall yn y datganiad incwm cynhwysfawr pan fo'n ddyledus.

## 1.9. Rhent prydles gweithredol

Mae prydlesi'n cael eu hystyried yn brydlesi cyllid pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol holl risgiau a gwobrwyon perchenogaeth yr eiddo prydles i'r endid. Mae pob prydles arall yn cael ei hystyried yn brydles weithredu. Cofnodir rhenti prydlesi gweithredol i'r datganiad incwm cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae'r budd cyfanredol ddaw o'r cymhelliant prydles yn cael

ei gofnodi fel lleihad ar gost tymor y brydles ar sail llinell syth.

### 1.10. Pensiynau

Mae gan y CFfC gynllun buddion pensiwn diffiniedig a chynllun cyfrannu diffiniedig. Mae cyfraniadau i'r ddau gynllun yn cael eu nodi yn y datganiad incwm cynhwysfawr wrth iddynt ddod yn ddyledus.

### 1.11. Darpariaethau

Mae darpariaeth yn cael ei chydnabod pan fo rhwymedigaeth ar y dyddiad adrodd yn sgil digwyddiad yn y gorffennol, pan fo'n debygol y bydd gofyn i'r CFfC drosglwyddo buddion economaidd a phan fo'n bosibl mesur y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

### 1.12. Rheoli adnoddau hylifol a buddsoddiadau

Mae gan y CFfC un prif gyfrif cyfredol y gwneir ei holl drafodion dydd i ddydd ohono.  Cedwir balans y cyfrif hwn mor isel â phosibl er mwyn sicrhau bod cronfeydd dros ben yn cael eu cadw mewn cyfrifon cadw tymor byr i dymor canolig. Y polisi o ran arian parod yw mwyhau enillion tra'n cadw risgiau mor isel â phosibl.

hir dymor mewn 12 mis a mwy o fewn buddsoddiadau. Cynhwysir buddsoddiadau yn y datganiadau ariannol ar sail gwerth teg fel ar ddyddiad y fantolen. Mae'r symudiad ar werth y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y gronfa gyffredinol.

### 1.13. Offerynnau Ariannol

Dim ond gyda thrafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol megis masnach a chyfrifon taladwy a derbyniadwy eraill, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partïon a benthyciadau'n ymwneud â phartïon cysylltiedig y bydd y CFfC yn ymwneud. Nodir offerynnau ariannol sylfaenol i gychwyn gyda'u gwerth trafodiadol ac fe'u mesurir wedyn ar y costau amorteiddio heblaw am fuddsoddiadau a restrir ac a fesurir ar werth teg.

### 1.14. Trethiant gohiriedig

Cydnabyddir treth ohiriedig mewn perthynas â'r holl wahaniaethau amseru sydd wedi tarddu ond heb eu gwrthdroi ar ddyddiad y fantolen, lle mae trafodion neu ddigwyddiadau sy'n arwain at rwymedigaeth i dalu mwy neu lai o dreth yn y dyfodol wedi digwydd ar ddyddiad y fantolen. Gwahaniaethau amseru yw gwahaniaethau rhwng elw trethadwy'r CFfC a'r canlyniadau fel y'u nodir yn y datganiadau ariannol.

Mesurir treth ohiriedig ar y cyfraddau treth cyfartalog y disgwylir iddynt fod yn gymwys yn y cyfnodau y disgwylir i wahaniaethau amseru wrthdroi, yn seiliedig ar gyfraddau treth a chyfreithiau sydd wedi'u deddfu, neu eu deddfu'n sylweddol, erbyn dyddiad y fantolen. Mesurir treth ohiriedig ar sail nad yw'n ddisgownt.

## 1. Incwm

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Fferyllwyr | 15,142 | 15,120 |
| Lleoliadau | 3,889 | 3,716 |
| Technegwyr fferyllol | 3,121 | 3,017 |
| Cyn-gofrestru | 883 | 1,112 |
| Incwm grant | 16 | 16 |
| Incwm arall | 84 | 206 |
| **Cyfanswm incwm** | **23,135** | **23,187** |

## 2. Gwariant

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---:|---:|
| Costau cyflogeion: cyflogres | 12,999 | 12,732 |
| Costau eraill cyflogeion | 1,855 | 2,384 |
| Costau eiddo | 274 | 331 |
| Costau swyddfa | 150 | 317 |
| Costau proffesiynol | 2,353 | 2,039 |
| Costau digwyddiadau | 28 | 47 |
| Costau marchnata | 12 | 27 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 1,046 | 1,060 |
| Costau ariannol | 214 | 221 |
| Costau ymchwil | 21 | 19 |
| Costau TG | 1,407 | 1,578 |
| Costau eraill | 255 | 256 |
| Costau meddiannaeth | 2,328 | 2,105 |
| **Cyfanswm gwariant** | **22,942** | **23,116** |

## 3. Gwariant (parhad)

### Costau cyflogeion

Roedd costau gweithwyr, gan gynnwys cyfarwyddwyr, fel a ganlyn:

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 10,573 | 10,352 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwr | 1,245 | 1,184 |
| Costau pensiwn | 1,047 | 992 |
| Dileu Swyddi | 134 | 204 |
| | **12,999** | **12,732** |

Nifer cyfartalog y staff oedd yn gyflogedig yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 oedd 228 (231 ar 31 Mawrth 2020).

Mae rhestr isod o staff, gan gynnwys cyfarwyddwyr, a enillodd dros £60,000: (heb gynnwys costau diswyddo) yn ystod y flwyddyn:

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| £60,001 – £70,000 | 20 | 11 |
| £70,001 – £80,000 | 12 | 10 |
| £80,001 – £90,000 | 3 | 3 |
| £90,001 – £100,000 | 0 | 2 |
| £100,001 – £110,000 | 2 | 1 |
| £110,001 – £120,000 | 2 | 4 |
| £120,001 – £130,000 | 1 | 0 |
| £130,001 – £140,000 | 0 | 0 |
| £140,001 – £150,000 | 1 | 0 |
| £150,001 – £160,000 | 0 | 0 |
| £160,001 – £170,000 | 0 | 0 |
| £170,001 – £180,000 | 1 | 1 |
| | **42** | **32** |

Dan SAC 102, y personél rheoli allweddol yw'r sawl sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys y prif weithredwr a chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr

## 3. Gwariant (parhad)

Roedd y tâl ar gyfer personél rheoli allweddol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021 £978,771 (£903,603 ar 31 Mawrth 2020). Mae'r dadansoddiad o'u cyflog a'u buddion isod:

| Enw | Teitl y swydd | Tâl (wedi eu nodi mewn bandiau 10K) | Budd mewn nwyddau/wasanaethau * (i'r £100 agosaf) |
|---|---|---|---|
| Duncan Rudkin | Prif Weithredwr | £170,000 - £180,000 | - |
| Claire Bryce-Smith | Cyfarwyddwr Mewnwelediad, Gwybodaeth ac Arolygu | £120,000 - £130,000 | - |
| Carole Auchterlonie | Cyfarwyddwr Addasrwydd i Ymarfer | £110,000 - £120,000 | - |
| Jonathan Bennetts | Cyfarwyddwr Cyllid | £110,000 - £120,000 | £600 |
| Mark Voce | Cyfarwyddwr Addysg a Safonau | £100,000 - £110,000 | - |
| Francesca Okosi | Cyfarwyddwr Pobl | £60,000 - £70,000 | - |
| Gary Sharp | Cyfarwyddwr Cyswllt Adnoddau Dynol | £40,000 - £50,000 | - |
| Laura McClintock | Prif Swyddog Staff a Chyfarwyddwr Cysylltiol Materion Corfforaethol | £30,000 - £40,000 | £300 |

*Mae buddion mewn nwyddau neu wasanaethau yn cynnwys gofal iechyd preifat ac aelodaeth campfa wedi ei sybsideiddio.

Hawliodd Francesca Okosi gyfanswm o £200 o dreuliau teithio. Ni wnaeth yr holl bersonél rheoli allweddol eraill hawlio unrhyw dreuliau yn ystod y flwyddyn.

Tâl y cyfarwyddwr oedd yn derbyn y cyflog uchaf fel lluosrif tâl canolrif

| | 2021 £ | 2020 £ |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | 175,000 | 175,000 |
| Canolrif cyfanswm tâl | 42,576 | 40,760 |
| Cymhareb tâl | 1:4 | 1:4 |

## 3. Gwariant (parhad)

Cyflogau a threuliau aelodau'r Cyngor:

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm tâl aelodau'r cyngor | 226 | 226 |
| Cyfanswm treuliau dalwyd i aelodau'r Cyngor | - | 20 |
| | **226** | **246** |

## 4. Incwm buddsoddi

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Difidendau | 30 | - |
| Gwarantau llog sefydlog | 122 | - |
| Llog derbyniadwy – adneuon arian parod | 56 | 249 |
| | **208** | **249** |

## 5. Cyfanswm incwm cynhwysfawr

Nodir hyn ar ôl codi am:

| | 2021<br>£000 | 2021<br>£000 |
|---|---|---|
| Rhent prydles gweithredol: cerbydau modur | 89 | 99 |
| Rhent prydles gweithredol: llungopïwyr | 12 | 12 |
| Rhent prydles gweithredol: adeiladau | 1,240 | 1,238 |
| Dibrisiant asedau sefydlog diriaethol | 663 | 656 |
| Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol | 383 | 404 |
| Tâl archwilwyr: gwasanaethau archwilio – Crowe | 23 | 22 |

## 6. Trethiant

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Treth gorfforaethol DU ar 19% yn ystod y flwyddyn | 28 | 47 |
| Tan-ddarpariaeth mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol | 1 | - |
| Ffioedd treth cyfredol | 29 | 47 |
| | | |
| Tâl treth ohiriedig ar 19% yn ystod y flwyddyn | 114 | - |
| | **143** | **47** |

Dim ond ar incwm llog derbyniadwy ac incwm tanysgrifiad data, net costau priodol, y mae treth gorfforaethol yn daladwy yn ystod y flwyddyn.

Mae llywodraeth y DU wedi cynnig cynyddu'r brif gyfradd treth gorfforaeth gan 6% i 25% o 1 Ebrill 2023, nad yw wedi'i deddfu'n sylweddol eto. Yn dilyn deddfiad sylweddol y gyfradd newydd, caiff y rhwymedigaeth treth ohiriedig ei hail-fesur yn unol â hynny.

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| | Gwelliannau prydles byr £000 | Offer swyddfa £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 5,607 | 2,157 | 7,764 |
| Ychwanegiadau | - | 27 | 27 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **5,607** | **2,184** | **7,791** |
| Dibrisiant | | | |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 3,242 | 2,014 | 5,256 |
| Tâl am y flwyddyn | 580 | 83 | 663 |
| Gwarediadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **3,822** | **2,097** | **5,919** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2021** | **1,785** | **87** | **1,872** |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 2,365 | 143 | 2,508 |

## 8. Asedau sefydlog anniriaethol

| | Meddalwedd cyfrifiadurol a datblygu systemau £000 |
|---|---|
| Cost | |
| Balans 1 Ebrill 2020 | 1,209 |
| Ychwanegiadau | 125 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **1,334** |
| Amorteiddio | |
| Balans 1 Ebrill 2020 | (582) |
| Tâl amorteiddio am y flwyddyn | (383) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **369** |

## 9. Buddsoddiadau

| | 2021 £000 |
|---|---|
| Gwerth y farchnad ar 1 Ebrill 2020 | - |
| Ychwanegiadau ar gost | 15,000 |
| Gwarediadau | - |
| Difidendau a gwarantau llog sefydlog | 152 |
| Ffioedd rheolwr buddsoddi a godir ar y gronfa | (37) |
| Enillion ar fuddsoddiadau | 628 |
| **Gwerth y farchnad ar 31 Mawrth 2021** | **15,743** |

Dyraniad asedau portffolio yn 2021:

| | Buddsoddiadau yn y DU £000 | Buddsoddiadau dramor £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm corfforaethol sefydlog | 6,018 | - | 6,018 |
| Incwm sofran / asiantaeth sefydlog | 4,002 | - | 4,002 |
| Ecwitïau | 721 | 4,990 | 5,711 |
| Arian Parod | 12 | - | 12 |
| | 10,753 | 4,990 | 15,743 |

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddwyd cyfanswm o £15 miliwn o arian dros ben gyda Goldman Sachs mewn portffolio buddsoddi yn dilyn proses dendro ffurfiol. Cytunodd y Cyngor ar strategaeth fuddsoddi sy'n rheoli'r portffolio ac mae adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio. Cyn hyn, buddsoddwyd arian dros ben mewn adneuon arian parod.

## 10. Dyledwyr

| | 2021 £000 | 2020 £000 |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnachol | 10 | 25 |
| Debydau uniongyrchol aelodau i'w casglu | 196 | 200 |
| Dyledwyr eraill | 71 | 145 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,727 | 1,507 |
| | | |
| Dyledwyr (yn daladwy mewn mwy nag un flwyddyn) | | |
| Dyledwyr masnachol | 1 | 5 |
| | **2,005** | **1,882** |

## 11. Banc ac arian parod

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Cyfrifau cyfredol | 249 | 748 |
| Cyfrifau cadw | 12,786 | 12,821 |
| | **13,035** | **13,569** |

Symudir arian o gyfrifau cadw i'r cyfrif cyfredol yn ôl y gofyn. Mae hyn yn sicrhau yr adenillir cymaint â phosibl ar arian cadw. Mae'r CFfC yn cynnal gwariant gweithredol 6 mis fel cronfa hylifedd wrth gefn i'w cadw mewn cronfeydd hylifol ar gyfer rhedeg y sefydliad o ddydd i ddydd.

## 12. Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnachol | 1,540 | 828 |
| Treth gorfforaethol | 28 | 47 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 328 | 325 |
| Credydwyr eraill | 73 | 18 |
| Croniadau | 1,347 | 883 |
| Incwm wedi ei ohirio | 14,117 | 14,180 |
| | **17,433** | **16,281** |

Mae incwm wedi ei ohirio'n cynnwys y canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Incwm wedi ei ohirio gan aelodau a lleoliadau | 14,049 | 14,100 |
| Incwm arall wedi ei ohirio | 21 | 17 |
| Grant cyfalaf wedi ei ohirio | 47 | 63 |
| | **14,117** | **14,180** |

Mae pob incwm gohiriedig gan aelodau a lleoliadau yn cael ei ryddhau i incwm y flwyddyn wedyn.

## 13. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 1,987 | 2,462 |
| Cronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | | |
| Cynnydd rhent wedi cronni | (28) | (22) |
| Wedi ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn | (453) | (453) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,506** | **1,987** |
| Rhaniad y gronfa rent: | | |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi mewn blwyddyn | 482 | 481 |
| **Rhwymedigaethau presennol** | **482** | **481** |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi o fewn dwy i bum mlynedd | 1,024 | 1,501 |
| Cronfa wrth gefn yn gwrth-droi ymhen mwn na phum mlynedd | - | 5 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn rhai presennol** | **1,024** | **1,506** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **1,506** | **1,987** |

Mae'r brydles ar 25 Canada Square yn Canary Wharf ar gyfer 15 mlynedd gyda chymal-torri gan ddeiliaid y brydles yn unig ar ôl 10 mlynedd. Mae'r CFfC wedi cael budd o gyfraniad cyfalaf o £4.4m, fel cymhelliant landlord, tuag at ail-ddodrefnu'r lleoliad. Mae'r cymhelliant hwn, a rhai eraill, yn cael eu gwasgaru dros gyfnod 10 mlynedd y brydles yn erbyn y costau rhent blynyddol.

## 14. Darpariaethau

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| Dadfeiliad | 1,679 | 1,412 |
| Rhwymedigaeth treth ohiriedig | 114 | - |
| | **1,793** | **1,412** |

Yn dilyn adolygu prydles 25 Canada Square ac wedi derbyn cyngor proffesiynol, mae'r CFfC wedi cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliad gan £267k. Mae'r rhwymedigaeth bosibl wedi codi o ganlyniad i ffitio'r swyddfa yn wreiddiol yn 2014.

Mae'r rhwymedigaeth treth gohiriedig yn cynnwys treth ar enillion cyfalaf bosibl ar fuddsoddiadau.

## 15. Ymrwymiadau

Fel y mae ar 31 Mawrth 2021 lleiafswm taliadau prydles gweithredol y CFfC yw:

| | 2021<br>£000 | 2020<br>£000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | | |
| Cerbydau modur | 83 | 85 |
| Eiddo | 787 | 787 |
| Cyfarpar | 12 | 12 |
| | **882** | **884** |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | | |
| Cerbydau modur | 49 | 117 |
| Eiddo | 1,673 | 2,459 |
| Cyfarpar | 6 | 17 |
| | **1,728** | **2,593** |
| Mwy na phum mlynedd | | |
| Eiddo | - | - |
| | **-** | **-** |

Y taliadau prydles ariannol blynyddol dan brydles gweithredu'r eiddo yw £1.2m. Mae'r ymrwymiad a nodir uchod yn ystyried y cymhelliant prydlesi a dderbyniwyd ar gychwyn y brydles ac sy'n cael ei amorteiddio ar sail llinell-syth dros gyfnod y brydles ar £0.5m y flwyddyn.

## 16. Partïon Cysylltiedig

Dangosir tâl a threuliau a dalwyd i aelodau'r cyngor yn nodyn 3 (tâl a threuliau aelodau'r cyngor).

## 17. Rheoli risg ariannol

Mae gan y CFfC fframwaith rheoli risg ffurfiol y mae'r Cyngor yn atebol amdano. Mae'r CFfC yn agored i risg hylifedd. Amcan y CFfC wrth reoli risgiau hylifedd yw sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau ariannol pan fônt yn ddyledus. Mae'r CFfC yn disgwyl cyflawni ei oblygiadau ariannol drwy lifoedd arian gweithredol. O ystyried argaeledd arian parod, mae'r CFfC mewn sefyllfa i allu cyflawni ei ymrwymiadau a'u goblygiadau wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae cronfeydd yn cael eu gosod mewn sefydliadau graddfa fuddsoddi.

## 18. Pensiynau

### Cynllun Buddion Pensiwn Diffiniedig GIG

Mae'r CFfC yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG mewn perthynas ag 87 o gyflogeion (2019/20: 92 o gyflogeion). Nid yw'r cynllun yn cael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran nhw o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun. Felly, cyfrifir y cynllun fel petai'n gynllun cyfrannu diffiniedig: bernir bod y gost i'r Corff GIG sy'n cyfrannu at y cynllun yn hafal â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun yn ystod y cyfnod cyfrifo. Mae'r tâl pensiwn ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys cyfraniadau taladwy i gynllun y GIG, sef £665,106 (2019/20: £666,307).

Mae gwerth rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2021 wedi ei seilio ar ddyddiad prisio 31 Mawrth 2020, wedi ei ddiweddaru at 31 Mawrth 2021 gyda data aelodau a chyfrifo cynhwysol cryno. Diben y prisiad hwn yw asesu lefel rhwymedigaeth o ran y buddion sy'n ddyledus dan y cynllun (gan ystyried profiad demograffig diweddar) ac i argymell cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogeion a chyflogwyr. Mae rheoliadau'r cynllun yn caniatáu i lefelau'r cyfraddau cyfrannu gael eu newid gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gyda chydsyniad Trysorlys Ei Mawrhydi, ac ystyriaeth o gyngor actwari'r cynllun a chynrychiolwyr cyflogeion a chyflogwyr fel y bernir yn briodol.

Cwblhawyd y prisiad actwaraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2016. Gosododd canlyniadau'r prisiad hwn y cyfraddau cyfrannu gan gyflogwyr o Ebrill 2020. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar wedi gosod rheoliadau ar y cynllun yn cadarnhau y bydd cyfradd cyfrannu cyflogwyr yn codi i 20.6% o gyflog pensiynadwy o'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, bydd y CFfC yn talu'r gyfradd 14.38% ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 gan y bydd y cynnydd yn y raddfa yn cael ei dalu'n ganolog.

Roedd disgwyl i brisiad 2016 hefyd roi prawf ar gost y cynllun mewn perthynas â'r terfyn cost a osodwyd ar gyflogwyr yn sgil prisiad 2012. Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth oedi i elfen rheoli cost prisiadau 2016, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch buddion aelodau a achoswyd gan y dyfarniad gwahaniaethu'n ymwneud ag achos McCloud.

Cyhoeddodd y Llywodraeth wedyn ym mis Gorffennaf 2020 fod yr oedi wedi'i godi, ac felly gellid cwblhau elfen rheoli cost prisiadau 2016. Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd costau cywiro'r gwahaniaethu yn cael eu cynnwys yn y broses hon. Bydd cyfarwyddiadau prisio Trysorlys Ei Mawrhydi yn nodi manylion technegol sut y caiff costau cywiro eu cynnwys yn y broses brisio. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cadarnhau bod Actiwari'r Llywodraeth yn adolygu'r mecanwaith rheoli costau (fel y cyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2018). Asesodd yr adolygiad a yw'r mecanwaith rheoli costau yn gweithio yn unol ag amcanion gwreiddiol y llywodraeth ac adroddwyd wrth y Llywodraeth ym mis Ebrill 2021. Ni fydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn effeithio ar brisiadau 2016, gyda'r nod o wneud unrhyw newidiadau i'r mecanwaith capio costau mewn pryd ar gyfer cwblhau prisiadau actiwaraidd 2020.

## Cynllun Cyfrannu diffiniedig

Mae’r CFfC hefyd yn gweithredu cynllun cyfrannu diffiniedig. Cyfanswm y cyfraniadau i’r cynllun hwn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 oedd £383,674 (2019/20: £323,572) o ran 115 o gyflogeion (2019/20: 106 o gyflogeion).

Mae cyfraniadau gan gyflogeion yn wirfoddol, er bod gan staff opsiwn i optio allan. Pan fo cyflogai yn dewis bod yn aelod, bydd y CFfC yn cyfrannu fel a ganlyn:

| Cyfraniad cyflogai | Cyfraniad cyflogwr |
|---|---|
| 5% | 5% |
| 6% | 12% |
| 7% | Uchafswm o 14% |

## Atodiad 1: Penderfyniad Ar Gyfrifon y Cyngor Fferyllol Cyffredinol gan y Cyfrin Gyngor dan Orchymyn Fferylliaeth 2010

Mae Eu Harglwyddi yn penderfynu fel a ganlyn wrth ymarfer y pwerau a roddir gan Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferylliaeth 2010.

Mae'r penderfyniad hwn yn weithredol o 13 Mawrth 2010.

**Dehongliad**

1. Yn y penderfyniad hwn -

mae "y cyfrifon" yn golygu'r datganiad cyfrifon y mae'n ddyletswydd ar y Cyngor eu paratoi dan adran 2 Atodlen 1 (7) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

mae "y Cyngor" yn golygu'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.

**Penderfyniad**

2. Rhaid i'r Cyngor baratoi'r cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn galendr yn unol â'r egwyddorion cyfrifo a'r anghenion datgelu a ddisgrifir yn y Safonau Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol (GAAP).
3. Bydd y cyfrifon cyntaf yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011, ac yn cynnwys datganiad ar unrhyw gyfrifon sy'n weddill o'r flwyddyn ariannol 2009-2010.
4. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i:
    - roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad fel y mae ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac o'r incwm a'r gwariant, cyfanswm enillion a cholledion (neu, fel y bo'n briodol, enillion a cholledion), a llif arian y Cyngor am y flwyddyn galendr a ddaeth i ben; a
5. Bydd cydymffurfio gyda'r GAAP yn angenrheidiol, heblaw am mewn amgylchiadau neilltuol, er mwyn i'r cyfrifon roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad yn y flwyddyn ariannol dan sylw.
6. Os oes amgylchiadau neilltuol o'r fath ac y byddai cydymffurfio â gofynion y GAAP yn arwain at baratoi cyfrifon sy'n anghyson gyda'r gofyniad iddynt fod yn adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad ar ddiwedd y flwyddyn, dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i roi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr y sefydliad y dylid gwyro oddi wrth y GAAP
7. Mewn achosion y cyfeirir atynt ym mharagraff 5, dylid defnyddio crebwyll diduedd a gwybodus i lunio triniaeth wahanol sy'n gyson gyda nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw.
8. Dylid trafod gwyro materol o'r GAAP, gyda'r Cyfrin Gyngor i gychwyn, mewn unrhyw amgylchiadau.
9. Rhaid atgynhyrchu'r penderfyniad hwn fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

Arwyddwyd drwy awdurdod y Cyfrin Gyngor

**General Pharmaceutical Council**
**25 Canada Square, London E14 5LQ**
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

**@TheGPHC**
**TheGPHC**
**/company/general-pharmaceutical-council**
**www.pharmacyregulation.org**